



Manyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol

Egwyddorion, nodweddion a swyddogaethau
cyffredinol Nyrsio Cymunedol yng Nghymru

Hydref 2022

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol yn amlinellu ar lefel strategol egwyddorion, nodweddion a swyddogaethau cyffredinol Nyrsio Cymunedol yng Nghymru ar gyfer unigolion 16 oed a throsodd. Mae profiad unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau nyrsio cymunedol yn ganolog i'r fanyleb, drwy ddefnyddio egwyddorion craidd sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ataliol, diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ei nodau fel a ganlyn:

Safoni gofal lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau amrywiadau a gwella ansawdd	Amlinellu egwyddorion allweddol	Adran 4	→
	Amlinelliad o'r oriau gwaith ar gyfer gwasanaethau Nyrsio Ardal	Adran 5	
	Nodi sgiliau a gwybodaeth allweddol ar gyfer Nyrsys	Adran 7	
Symleiddio systemau a phrosesau i sicrhau gwell bod pobl yn cael profiad gwell ac i wneud bywydau gwaith nyrsys yn haws	Mynediad i wasanaethau iechyd a gofal eraill	Adran 5 ac Adran 6	→
	Lleihau Amrywiad	Adran 9	
	Gwella Ansawdd	Adran 6 ac Adran 9	
	Gwerthfawrogi Nyrsys	Adran 11	
Cydweithio gyda nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill o amgylch yr unigolyn	Gwella Cyfathrebu	Adran 10	→
	Rôl Nyrsys Cymunedol fel arweinwyr clinigol	Adran 8	
	Cyfleoedd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio a modelau nyrsio	Adran 12	

Gwell profiad i'r unigolyn a'i iechyd a'i lesiant

[Adran 13](#)

Ni all y fanyleb ymdrin yn gynhwysfawr â phob maes ymarfer ac arbenigedd y mae Nyrsys sy'n gweithio yn y Gymuned yn eu darparu. Felly, mae'r fanyleb hon yn canolbwyntio ar Nyrsys Practis Cyffredinol, Nyrsys Arbenigol a Nyrsys Ardal a'u timau.

Gyda'i gilydd, cyfeirir at y grwpiau hyn fel Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol a Nyrsys Cymunedol neu Nyrsys, yn y fanyleb hon.

Nid yw Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn gweithio ar eu pen eu hunain ac maent yn rhan hanfodol o'r tîm nyrsio, y tîm amlbroffesiynol a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Bydd safoni elfennau allweddol o'r Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn hybu mwy o gydweithio rhwng nyrsys a dealltwriaeth o rôl a gwerth nyrsys cymunedol o fewn y tîm amlbroffesiynol ehangach. Bydd hyn yn bwysig wrth i ffiniau traddodiadol rolau newid ac wrth i nyrsys weithio fwyfwy yn unol â modelau gofal newydd i ymateb i heriau ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r fanyleb yn annog Nyrsys Cymunedol i ddod at ei gilydd i adolygu'r ffordd y maent yn gweithio ar draws llwybrau gofal i bobl 16 oed a hŷn. Mae'n annog nyrsys i feddwl am wahanol fodelau gweithio, sut i rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd ac mae'n hyrwyddo symud tuag at ddull ataliol sy'n seiliedig ar y boblogaeth o gefnogi'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Gan gydnabod y gwerth y mae Nyrsys Cymunedol yn ei gynnig, mae'r fanyleb yn amlinellu sut y dylid galluogi nyrsys i arwain a chefnogi gwaith ymchwil a gwelliannau i wasanaethau, cael llwybrau datblygu a llwybrau gyrfa clir a chael eu cefnogi drwy gael mynediad at oruchwyliaeth glinigol reolaidd.

Mae Nyrsys Cymunedol yn cynnig arweinyddiaeth glinigol a threfniadau llywodraethu cryf i'w gwasanaethau a'r tîm iechyd a gofal ehangach. Bydd hyn, ochr yn ochr â dull cyson o weithio, yn galluogi nyrsys i arwain, datblygu, a/neu gefnogi gwasanaethau presennol a newydd ymhellach, er mwyn cyflawni uchelgeisiau Model Gofal Sylfaenol Cymru.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
1. Cyflwyniad	4
2. Diffiniad o Nyrsio Cymunedol	4
3. Cyd-destun Strategol Nyrsio yng Nghymru	6
4. Egwyddorion Nyrsio Cymunedol.....	7
4.1 Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	7
4.2 Gofal ataliol sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth	7
4.3 Gweithlu medrus.....	8
4.4 Llwybr system gyfan	8
4.5 Gwasanaethau wedi'u galluogi gan dechnoleg	9
4.6 Diogel, Effeithiol a Seiliedig ar Werth.....	9
5. Nodweddion Allweddol Gweithlu Nyrsio Cymunedol.....	10
5.1 Safonau Gweithredol	10
5.2 Amseroedd ymateb	11
5.4 Cadw Cofnodion Clinigol.....	12
5.5 Y Defnydd o Dechnoleg	12
5.6 Man gofal.....	12
6. Ystyriaeth Clinigol Penodol.....	13
7. Cwmpas ymarfer	16
8. Sgiliau Arwain a Rheoli.....	19
9. Trefnu Gofal	19
10. Cyfathrebu	22
10.1 Dulliau Cyfathrebu Penodol i'r Unigolyn.....	22
10.2 Cyfathrebu Proffesiynol a Chyfathrebu â'r Thîm:.....	23
11. Gweithgaredd dysgu a datblygu'r gweithlu	23
12. Modelau Gofal Nyrsio Cymunedol.....	25
13. Ansawdd a Chanlyniadau	26
14. Rhestr Termiau.....	29
Atodiadau	30
Atodiad 1: Ffurflen hunan-asesu sy'n cwmpasu pob agwedd allweddol (h.y. adrannau 4 – 12) o'r Fanyleb Nyrsio Cymunedol Genedlaethol.	30

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol yn amlinellu ar lefel strategol egwyddorion, nodweddion a swyddogaethau cyffredinol Nyrsio Cymunedol yng Nghymru ar gyfer unigolion 16 oed a throsodd.

1.2 Nod y fanyleb Genedlaethol yw:

- **Safoni** gofal lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau amrywiadau a gwella ansawdd
- **Symleiddio** systemau a phrosesau i sicrhau bod pobl yn cael profiad gwell ac i wneud bywydau gwaith nyrsys yn haws
- **Hyrwyddo cydweithio** gyda nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill o amgylch y person

1.3 Mae'r fanyleb yn cydnabod y bydd anghenion poblogaethau lleol yn golygu bod angen nyrsys â sgiliau gwahanol er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Fodd bynnag, dylai'r **gwasanaeth cyfan** a gynigir gan Nyrsys Cymunedol, ymgorffori'r nodweddion, yr egwyddorion a'r swyddogaethau allweddol a amlinellir yma.

1.4 Bydd hyn yn sicrhau dull cyson o ddarparu Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol sy'n:

- rhoi profiad unigolion a gofalmwr sy'n defnyddio gwasanaethau nyrsio cymunedol wrth ei wraidd. Gwneir hyn drwy ddefnyddio egwyddorion allweddol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ataliol, diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- cydnabod gwerth a chyfraniad Nyrsio Cymunedol i unigolion, cymunedau lleol a gweithwyr ieuchyd a gofal proffesiynol ar draws y meysydd gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.
- hyrwyddo cydweithio'n agosach a dealltwriaeth gliriach o rolau ei gilydd, creu perthnasoedd mwy cadarn ac effeithiol rhwng ymarferwyr nyrsio cyffredinol, arbenigol, uwch ac ymgynghorol, sy'n darparu cyfnodau o ofal yn y gymuned
- lleihau amrywiadau yn y gwasanaeth a ddarperir i unigolion a gofalmwr ac i'r gwasanaethau neu'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n rhyngweithio â nhw


1.5 Bydd angen i Wasanaethau Nyrsio Cymunedol allu dangos sut y maent yn cyflawni'r Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol a'i chanlyniadau. Mae offeryn hunanasesu a mesurau i ddangos sut y bydd canlyniadau'r fanyleb hon yn cael eu cyflawni wedi'u cynnwys yn adran 13. Gyda'i gilydd bydd y rhain yn cefnogi Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i ddeall sut y mae eu gwasanaethau, ar hyn o bryd, yn bodloni'r egwyddorion, y nodweddion a'r swyddogaethau a nodir yn y fanyleb hon a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r rhain.

2. Diffiniad o Nyrsio Cymunedol

2.1 Gellir diffinio Nyrsio Cymunedol fel unrhyw nyrs sy'n gweithio yn y gymuned, yn darparu gofal, triniaeth a chymorth i unigolion. Mae nyrsio cymunedol yn cwmpasu ystod eang o nyrsys cyffredinol ac arbenigol sy'n gweithio mewn cymunedau lleol; gweler ffigur 1. At ddibenion y fanyleb, caiff y rhain eu grwpio yn y ffordd a ganlyn, gan gydnabod y gall ac y bydd, rhyngwynebau lluosog rhwng nyrsys yn seiliedig ar anghenion nyrsio unigolyn:

Nyrsys Cyffredinol	Nyrsys Practis Cyffredinol Nyrsys Ardal a'u timau
Nyrsys Arbenigol	Nyrsys Arbenigol ar gyfer Clefyd Penodol sy'n gweithio gyda grŵp o unigolion â chyflwr penodol e.e., Nyrsys Diabetes Arbenigol, Nyrsys Methiant y Galon, Nyrsys Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)
	Nyrsys Arbenigol mewn Ymarfer Penodol sy'n gweithio o fewn maes ymarfer penodol, ond yn gweld unigolion ag ystod o anghenion e.e., Nyrsys Iechyd Carchardai, Nyrsys Digartrefedd a Chynhwysiant, Nyrsys Gofal Canolraddol, Nyrsys Gofal Lliniarol
Canghennau Nyrsio	Nyrsys Plant Cymunedol, Nyrsys Iechyd Meddwl Cymunedol, Nyrsys

Arbenigol a/neu Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol	Anableddau Dysgu, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgol, Bydwagedd Cymunedol, Nyrsys Iechyd Galwedigaethol
Grwpiau arwyddocaol eraill o Nyrsys	Nyrsys Cartref Gofal, Nyrsys Deintyddol



Figur 1 – Nyrsio cymunedol

2.2 Yn ogystal â hynny, mae'r teulu Nyrsio Cymunedol yn cynnwys amrywiaeth o rolau a lefelau arbenigedd.

- Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd gan gynnwys Ymarferwyr Cynorthwyl
- Nyrsys Cofrestredig
- Uwch Ymarferwr Nyrsio
- Nyrsys Ymgynghorol
- Arweinwyr/Rheolwyr Nyrsys

2.3 Mae nyrsys yn rhan annatod o gefnogi pobl ac yn allweddol i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag aelodau eraill o'r gweithlu iechyd a gofal. Mae ganddynt gyfoeth o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd amrywiol sy'n cwmpasu anghenion nyrsio unigol o'r cyfnod cyn cenhedlu hyd enedigaeth, drwy blentyndod i fywyd fel oedolyn ac ar ddiwedd oes. Mae pob nyrs drwy gydol taith bywyd unigolyn yn chwarae rhan werthfawr o ran grymuso a chefnogi unigolion a'u teuluoedd gartref, mewn addysg ac yn y gwaith.

Fodd bynnag, at ddibenion y fanyleb hon, nid yw Nyrsys sy'n dod o dan y Canghennau Nyrsio Arbenigol, Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol a Grwpiau Arwyddocaol eraill wedi'u cynnwys yma.

Mae hyn oherwydd eu maes ymarfer arbenigol, na fyddai'r fanyleb yn gallu ei gwmpasu'n llawn, neu oherwydd bod eu maes ymarfer y tu allan i gylch gorchwyl oedran y fanyleb, sef 16 oed a throsodd. Er y bydd gan rai nyrsys gysylltiad sylweddol â gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, ymdrinnir â hyn o dan 'Pontio' yn adran 6.

2.4 Bydd Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol hefyd yn gweithio yng nghyd-destun ehangach Timau Aml Broffesiynol. Gall hyn fod yn wasanaeth annibynnol sy'n cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill, fel rhan allweddol o dîm ambroffesiynol neu o fewn gwasanaeth integredig. Ni fwriedir i gynnwys neu wahardd unrhyw Nyrsys yn y fanyleb hon atal Nyrsys rhag cydweithio â'i gilydd neu o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, i ddiwallu anghenion nyrsio unigolion a phoblogaethau lleol.

2.5 Mae'r Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol yn canolbwyntio'n benodol ar y tri grŵp canlynol:

- **Gwasanaethau Nyrsio Ardal** sy'n wasanaeth a arweinir gan nyrsys sy'n cael ei redeg gan arweinydd tîm Nyrsys Ardal sydd â chymhwyster ymarferydd arbenigol cofnodadwy y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (QNI 2022), sy'n darparu arweinyddiaeth ac arbenigedd sy'n canolbwyntio ar ofal yn y cartref. Mae Nyrsys Ardal a'u timau yn rhan annatod o'r tîm gofal sylfaenol amlbroffesiynol. Mae'r timau hyn yn mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd, gan ofalu am boblogaeth ddynodedig, o fewn clwstwr, a hyrwyddo annibyniaeth, diogelwch, ansawdd a phrofiad gydag ethos mai'r cartref yw'r man gorau a'r man cyntaf ar gyfer darparu gofal.
- Mae **Nyrsys Practis Cyffredinol** yn gweithio mewn Practis Cyffredinol lle y maent yn asesu unigolion yn annibynnol ac yn darparu gofal a thriniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i unigolion o bob oed a chanddynt ystod eang o gyflyrau iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys unigolion â salwch tymor byr, unigolion sy'n rheoli cyflyrau cronig, yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n cael gofal lliniarol. Mae Nyrsys Practis Cyffredinol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o alluogi pobl o bob oed i aros yn iach drwy ddarparu gwasanaethau sgrinio a hybu iechyd, yn ogystal â darparu gofal a thriniaeth ar gyfer salwch aciwt a chronig. Maent hefyd yn darparu brechiadau ac imiwneiddiadau, gwasanaethau atal cenhedlu ac iechyd rhywiol, gofal clwyfau a chymorth i Feddygon Teulu gyda mân lawdriniaethau.
- Mae **Nyrsys Arbenigol** yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddechrau triniaethau a gwneud y gorau ohonynt, addysgu'r unigolyn am ei gyflwr a'i helpu i gadw'n iach. Maent yn rhan annatod o'r tîm gofal sylfaenol amlbroffesiynol uwch, sy'n arbenigo mewn maes ymarfer neu gyflwr iechyd penodol. Gall nyrsys arbenigol weithio yn annibynnol ar eu pen eu hunain neu fel rhan o dîm amlbroffesiynol.

Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng Gwasanaethau Nyrsys Ardal, Nyrsys Arbenigol a Nyrsys Practis Cyffredinol yn y Gymuned a'r bobl y maent yn darparu gofal, cymorth a thriniaeth iddynt. ***Nid yw'r Fanyleb Genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r grwpiau hyn weithredu yn yr un ffordd***, ond yn hytrach fel crynswth, i sicrhau eu bod yn gweithio mewn partneriaeth ni waeth ym mha sefydliad y maent yn cael eu cyflogi, er mwyn cefnogi ***egwyddorion sylfaenol*** (adran 4) Nyrsio Cymunedol a darparu gofal di-dor a chydgyssylltiedig o ansawdd uchel.

3. Cyd-destun Strategol Nyrsio yng Nghymru

3.1 Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn ganolog i gyflawni uchelgeisiau ***'Cymru Iachach' (2019)*** a'r ***Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)*** sydd, gyda'i gilydd, yn canolbwyntio ar bobl, gan alluogi iechyd a llesiant drwy atal salwch, a gyflawnir drwy bartneriaeth a chydweithrediad. Maent yn rhan sylweddol o'r tîm amlbroffesiynol a'r gwaith clwstwr, sy'n elfennau hanfodol o gyflawni'r ***Model Gofal Sylfaenol i Gymru (2019)*** ac uchelgeisiau'r ***Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng***, gan gefnogi gofal yn nes at adref.

3.2 Mae Nyrsys Cymunedol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau teg o ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cydnabod anghenion y boblogaeth, sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn mabwysiadu dull gwrth-hiliol (***Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Cymru 2022***). Dyma dri o bum ***blaenoriaeth y Prif Swyddog Nyrsio (2022)*** a chânt eu hadlewyrchu hefyd yn yr hyn a ddysgwyd o'r ***Gwerthusiad o'r Cynlluniau Peilot Nyrsys Ardal Cymdogaeth a'i argymhellion (2020)***.

3.3 Mae Nyrsys Cymunedol yn darparu arweinyddiaeth glinigol gref a thosturiol o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol ac maent mewn sefyllfa ddelfrydol i ddatblygu ac arwain gwasanaethau gan ddefnyddio ***Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth*** er mwyn cyflawni egwyddorion ***Gofal Iechyd Darbodus (2016)***.

3.4 Felly, mae datblygiad y Gweithlu Nyrsio Cymunedol, sy'n cael ei ategu gan y ***Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AaGIC 2020)***, a'r ***Strategaeth Ddigidol Cymru (2022)*** yn hanfodol i wireddu uchelgeisiau'r strategaethau cenedlaethol hyn a'r trawsnewidiad sylweddol sydd ei angen i wneud hynny.

4. Egwyddorion Nyrsio Cymunedol

Rhaid i'r egwyddorion canlynol, sy'n seiliedig ar Strategaethau Cenedlaethol gan gynnwys Cymru Iachach (2018) ac a ddatblygwyd mewn trafodaeth â Nyrsys, fod yn sail i'r ffordd y mae gwasanaethau nyrsio cymunedol yn gweithio:

4.1 Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	4.2 Gofal ataliol sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth
- Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn cefnogi unigolion i ddeall eu hanghenion o ran iechyd corfforol, meddyliol, synhwyrdd a llesiant emosiynol. - Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn galluogi unigolion i wneud penderfyniadau ar sail 'yr hyn sy'n bwysig i mi', gan ddefnyddio dull cynllunio gofal personol cydgynhyrchiol. - Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn cydnabod hawliau ac arferion diwylliannol y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unigolion yn cael mynediad at wybodaeth am eu cyflwr a thriniaeth yn eu dewis iaith. - Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn gallu gwneud cynnig gweithredol Cymraeg a Saesneg i bob unigolyn a welir. - Mae gan bob unigolyn fynediad at wybodaeth am ei gyflwr a'i driniaeth yn yr iaith o'i ddewis. - Mae unigolion yn cael eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant drwy hunanreoli eu cyflyrau ac maent yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau i gyflawni eu canlyniadau. - Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn cydnabod hawliau unigolion i wneud penderfyniadau a all ymddangos i eraill yn beryglus, ond gan eu galluogi i fyw'n ddiogel o fewn teuluoedd a chymunedau. - Dylai pob unigolyn gal lefelau cyfartal o fynediad, triniaeth neu gefnogaeth waeth ble mae'n byw, waeth beth yw ei ethnigrwydd neu p'un a yw ei angen yn deillio o gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol. - Dylid dylunio Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i ddarparu dull cyfannol o gydnabod yr unigolyn a'i rwydweithiau, gan hyrwyddo dewis ac annibyniaeth. - Darperir triniaeth, cymorth a pharhad gofal cyson lle bynnag y bo modd gan grwpiau bach o nyrsys sy'n adnabod yr unigolyn yn dda.	- Mae nyrsys sy'n gweithio mewn gwasanaethau nyrsio cymunedol, yn ystod pob cyswllt, yn cynnig cyfleoedd i unigolion ddeall, cynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant yn well. - Mae nyrsys yn mabwysiadu dull bioseicogymdeithasol o ymdrin ag ymyriadau, sy'n cydnabod yr unigolyn cyfan a sut y gall ffactorau eraill effeithio ar iechyd a llesiant yr unigolyn a'r dewisiadau a wna. - Mae nyrsys yn deall anghenion eu poblogaeth leol ac yn mynd ati i gydweithio ac ymgysylltu a cheir llwybrau atgyfeirio clir i wasanaethau a sefydliadau cymunedol eraill, ar lefel cymdogaeth a/neu glwstwr. - Cefnogir gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i gael mynediad at feddalwedd pennu lefel risg ochr yn ochr â data ar y boblogaeth leol, i ddeall anghenion nyrsio trigolion lleol. - Mae nyrsys yn gweithio ar y cyd ag aelodau o'r gymuned Nyrsio ehangach a'r tîm amlbroffesiynol, i nodi cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyriadau cynnar. - Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol wedi'u grymuso i newid eu ffocws o ganolbwyntio ar afiechyd i atal, cynnal a chadw a gwella iechyd a llesiant. - Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn ystyried sut y maent yn cefnogi ac yn adnabod cyfleoedd i gynnal a gwella iechyd a llesiant y gofalwyr y maent mewn cysylltiad â nhw. Gall hyn gynnwys cyfeirio gofalwyr a/neu eu cefnogi i gael gafael ar gymorth drwy gydweithio ag eraill.

4.3 Gweithlu medrus

- Mae nyrsys sy'n gweithio o fewn gwasanaethau nyrsio cymunedol yn cael eu datblygu i ddarparu gofal cyfannol, sydd ag eiriolaeth a thosturi wrth ei wraidd.
- Mae nyrsys yn cael eu galluogi i gael gafael ar ddata poblogaeth leol a deall a defnyddio'r data hynny i nodi'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi anghenion iechyd a llesiant eu poblogaeth.
- Mae nyrsys yn defnyddio technegau ymddygiadol ac ysgogiadol i alluogi unigolion i aros yn iach a chymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant, gan gynnwys rheoli unrhyw gyflyrau hirdymor.
- Lle bynnag y bo modd, dylai mynediad at hyfforddiant fod yn rhan o gynnis amlbroffesiynol. Mae hyn yn galluogi nyrsys cymunedol i ddysgu ochr yn ochr â chydweithwyr o wahanol broffesiynau, gan gydnabod bod nyrsys cymunedol yn gweithio ac yn cefnogi unigolion fel rhan o dîm amlbroffesiynol ehangach.
- Mae gan y Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol lwybr gyrfa a datblygu clir sy'n galluogi nyrsys i weithio'n effeithiol yn unol â'r cylch gwaith llawn a'r cyfleoedd a gynigir gan swydd-ddisgrifiad nyrs ac sy'n ymatebol i anghenion newidiol ei phoblogaeth.
- Gall nyrsys fanteisio ar oruchwyliaeth adferol sy'n cynnig cyfleoedd i nyrsys fyfyrion ar eu hymarfer, nodi anghenion datblygu a hwyluso llesiant a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy eiriolaeth.
- Dylid ystyried a diwallu anghenion datblygu Nyrsys ar draws y ffiniau traddodiadol rhwng nyrsys practis, nyrsys ardal a nyrsys arbenigol, gan alluogi gofal nyrsio di-dor a chydgyssylltiedig ar draws ffiniau sefydliadol a nyrsio. Mae hyn yn sicrhau arferion cyson yn enwedig o ran rheoli cyflyrau hirdymor a gwell dealltwriaeth o rolau.
- Dylid cydnabod natur arbenigol yr amrywiaeth o Nyrsys sy'n ymarfer hyd at lefel uwch a lefel ymgynghorydd o fewn y maes Nyrsio Cymunedol drwy gynnis rhaglenni ymarfer uwch arbenigol, gan gynnwys y cymhwyster ymarfer arbenigol (SPQ). Mae hyn yn galluogi Nyrsys i wneud penderfyniadau lefel uchel (Hill 2020) ac mae'n cefnogi atal derbyniadau diangen i'r ysbyty (Kraszewski a Norris 2014; Barrett et al 2007).
- Dylai pob Nyrs gael cyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth dosturiol, a dylai Nyrsys sy'n gyfrifol am dimau gael cynnis hyfforddiant ychwanegol mewn rheoli achosion, cydlynu gofal, coetsio, mentora, goruchwyliaeth glinigol, rheoli newid a negodi.
- Er mwyn galluogi hyn, mae angen i bob Nyrs Gymunedol gael amser penodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a mynediad at gyllid.

4.4 Llwybr system gyfan

- Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn gweithio ar y cyd fel rhan o lwybr amlbroffesiynol system gyfan, sydd wedi mabwysiadu dull gweithredu cydgynhyrchiol ac ataliol, yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth ac wedi'i ategu gan weledigaethau a nodau cyffredin.
- Mae gan wasanaethau Nyrsio Cymunedol fynediad at systemau electronig cyffredin sy'n caniatáu integreiddio a chydgyssylltu gofal yn well ar draws a rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd/gofal eraill a gwasanaethau o fewn eu clwstwr neu gymdogaeth. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer cydweithio'n ddiogel, cydgysylltu, rhannu gwybodaeth yn amserol ac atal nyrsys rhag dyblygu gwaith cadw cofnodion.
- Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn ymateb i anghenion nyrsio brys unigolion, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau traddodiadol fel cyflogwr, proffesiwn neu leoliad.
- Mae ymateb Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i anghenion nyrsio yn seiliedig ar sicrhau bod y gofal a ddarperir i'r unigolyn yn cael ei ddarparu ar yr adeg gywir, gan y person cywir gyda'r sgiliau cywir.
- Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol a'u cynrychiolwyr yn rhan greiddiol o unrhyw ddatblygiad o wasanaethau, gan hyrwyddo dull partneriaeth system gyfan o fewn eu Cymdogaethau neu Glystyrau.
- Mae hyn yn cydnabod y sgiliau sydd gan Nyrsys o ran nodi, cynllunio, arwain, cydlynu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dylanwadu arnynt, ar lefel cymdogaeth, lefel clwstwr a lefel ranbarthol, yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth leol.
- Mae Nyrsys Arbenigol yn rhan annatod o wasanaethau nyrsio cymunedol a thîm amlbroffesiynol ehangach. Dylid cefnogi a chaniatáu i Nyrsys Arbenigol ddatblygu eu gwasanaethau o fewn cyd-destun integreiddio di-dor.
- Ochr yn ochr â'u rolau traddodiadol, dylid galluogi Nyrsys Arbenigol i weithio gyda phoblogaethau lleol, gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, gwasanaethau 111 a gwasanaethau y tu allan i oriau, ar nodi dulliau ataliol ac iechyd y cyhoedd i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

4.5 Gwasanaethau wedi'u galluogi gan dechnoleg

- Gall defnyddio technoleg gefnogi a grymuso rhai unigolion i ddeall eu cyflwr, i adnabod pryd y gall eu cyflwr fod yn newid ac i geisio cyngor a chymorth yn amserol. Gall hyn alluogi unigolion i gael dewis o ran sut a ble y darperir eu gofal, i aros yn iach ac i atal cyswllt ac ymweliadau diangen â gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.
- Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn defnyddio technoleg i weithio ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol er mwyn cefnogi asesiad/diagnosis clinigol amserol, diogel ac effeithiol a gofal, triniaeth a llesiant unigolion, yn ystod ymweliadau wyneb yn wyneb neu drwy ymgynghoriadau o bell.
- Mae gan Nyrsys Cymunedol fynediad at wybodaeth yn newis iaith y person a chymorth i unigolion ddefnyddio technoleg.
- Mae'r defnydd o dechnoleg i gefnogi unigolion bob amser yn cael ei gydbwyso â hawliau unigolion i wrthod hyn a'r gydnabyddiaeth efallai nad oes gan rai unigolion y modd ariannol, y gallu, mynediad i ddyfeisiau, na'r awydd i ddefnyddio technoleg ddigidol.
- Mae gan Nyrsys Cymunedol fynediad at gofnodion clinigol electronig a/neu gofnodion integredig lle y maent ar gael a defnyddir systemau amserlennu lle y maent wedi dangos eu bod yn fuddiol.
- Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn cael eu galluogi gan seilwaith o ddyfeisiau llaw digidol a'r gallu i gysylltu o bell a chael mynediad at systemau ar draws y meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd hyn yn galluogi Nyrsys Cymunedol i gyflawni eu rôl yn hyblyg waeth beth fo'r lleoliad.
- Dylai gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ystyried sut y gellir defnyddio Gwasanaethau Gofal a Gyfoethogir gan Dechnoleg (TECS) gan gynnwys teleofal, teleiechyd, telefeddygaeth ac iechyd drwy ddyfeisiau symudol (mhealth) i gefnogi unigolion i fonitro neu reoli eu gofal o fewn eu meysydd ymarfer.
- Defnyddir apiau, systemau monitro iechyd o bell neu synwryddion amgylcheddol/personol, sy'n gallu rhybuddio am newidiadau mewn iechyd neu risg o niwed, gan gefnogi nyrsys cymunedol i gymryd camau ataliol.

4.6 Diogel, Effeithiol a Seiliedig ar Werth

- Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn darparu gofal nyrsio diogel, amserol, urddasol, unigodedig, cyson ac effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n darparu gwerth am arian, sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus a dull sy'n seiliedig ar werth.
- Mae Nyrsys Cymunedol yn cael eu galluogi i gydweithio i sicrhau bod eu sgiliau cyffredinol ac arbenigol a'u ffyrdd o weithio yn gallu esblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion newidiol eu poblogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfraniad unigryw Nyrsys i'r gofal y maent yn ei gynnig i unigolion a buddion i'r tîm amlbroffesiynol ehangach yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.
- Mae gan wasanaethau Nyrsio Cymunedol strategaeth gwella gwasanaethau ac ymchwil sy'n cefnogi nyrsys ar bob lefel i nodi neu arwain mentrau ansawdd a/neu ymchwil a chymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn hanfodol i ddatblygu, gwella a chynyddu ansawdd gofal a chanlyniadau i unigolion.
- Mae Nyrsys Cymunedol ar draws y meysydd nyrsio sylfaenol, cymunedol ac arbenigol yn cael eu cefnogi i ddysgu oddi wrth ei gilydd, i ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio'n dda ac i ddefnyddio arloesedd i wella a thrawsnewid eu hymarfer.
- Mae Nyrsys Cymunedol yn gallu dangos, drwy ddefnyddio canlyniadau unigol a data iechyd y boblogaeth, sut y maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant pobl o fewn cylch gwaith eu hymarfer eu hunain ac fel rhan o dîm amlbroffesiynol.
- Mae gan Wasanaethau Nyrsio Cymunedol fynediad i offer a data sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o gapasiti, galw, aciwtedd a chymhlethdod yr unigolion a welir, i sicrhau bod nyrsys yn gallu diwallu anghenion pobl mewn modd diogel ac amserol.
- Mae gwasanaethau nyrsio cymunedol yn rhannu gwybodaeth gan gynnwys ar draws ffiniau sefydliadol, lle y bydd hynny o fudd i ddealltwriaeth ehangach o anghenion a gofynion poblogaeth o fewn cymdogaeth neu glwstwr.

5. Nodweddion Allweddol Gweithlu Nyrsio Cymunedol

5.1 Safonau Gweithredol

Oriau Gwaith

5.1.1 Rhaid i **Wasanaethau Nyrsio Ardal** fel y gwasanaeth nyrsio craidd ar gyfer y gymuned, weithredu **gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos sydd ar gael 24 awr y dydd**. Dylai nifer aelodau'r Timau Nyrsio Ardal fel **lleiafswm** fod yn **ddigonol ac yn gyson** ar draws y cyfnod o 7 diwrnod i ddiwallu anghenion nyrsio'r boblogaeth leol. Mae hyn yn cynnwys sut y mae gwasanaethau Nyrsio Ardal yn cefnogi gwasanaethau y tu allan i oriau, gan gynnwys rhyddhau pobl ar frys o'r ysbyty e.e. unigolion sy'n dymuno marw gartref ac osgoi cael eu derbyn i ysbyty.

Ni ddylai'r gwahaniaeth mewn capasiti rhwng 'oriau arferol' h.y., dydd Llun i ddydd Gwener 8 – 5 pm a'r penwythnos **fod yn llai nag 80% o'r Capasiti Nyrsio Ardal o ddydd Llun i ddydd Gwener**. Mae sicrhau bod gweithlu Nyrsio Ardal cadarn dros y penwythnos yn hanfodol, gan fod y timau hyn yn ffurfio craidd y gwasanaethau nyrsio sydd ar gael drwy gydol y cyfnod 24 awr.

Bydd hyn yn hyrwyddo dull gweithredu cyson, gan leihau amrywiadau direswm rhwng Gwasanaethau Nyrsio Ardal yng Nghymru a gwasanaethau allweddol gan gynnwys gofal eilaidd, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

Yn aml, gall y gallu i gael cymorth gyda'r nos, ar benwythnosau neu dros nos wneud gwahaniaeth rhwng gallu person i aros gartref pan fydd yn sâl, neu gael ei dderbyn i ysbyty. Dylid cynorthwyo Gwasanaethau Nyrsio Ardal, fel gwasanaeth 24/7, i adolygu sut y maent yn cydweithio â nyrsys cymunedol eraill megis y rhai mewn timau gofal canolraddol neu dimau ymateb aciwt, lle y bônt ar gael, yn ogystal â darpariaeth trydydd sector e.e. hosbisau, awdurdodau lleol a gofal cartref.

Mae manteision lluosog i ddull cydweithredol sy'n dod â gwasanaethau ynghyd y tu allan i oriau gan gynnwys dros nos. I'r unigolyn gall ei helpu i aros gartref e.e., pan fydd yn sâl gan atal dirywiad yn ei gyflwr, neu mewn argyfwng e.e., oherwydd methiant gofalwr, neu ar ddiwedd oes. O ran gwasanaethau, nyrsys a gweithwyr proffesiynol, gall leihau galwadau i wasanaethau eraill y tu allan i oriau, darparu cymorth clinigol a llywodraethu a chefnogi gweithwyr i weithio ar eu pen eu hunain.

Mae cydnabod Gwasanaethau Nyrsio Ardal fel un o dair elfen ganolog nyrsio cymunedol mewn clystyrau, yn hanfodol i gefnogi uchelgais gwasanaeth Nyrsio Ardal gyda'i ffocws ar atal, yr hyn sy'n bwysig i mi, hunanofal lle bo modd a galluogi gofal a thriniaeth yn y cartref.

5.1.2 Mae gwasanaethau **Nyrsys Practis Cyffredinol** yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn bennaf, ond mae hyn yn amrywio rhwng practisau meddygon teulu. Bydd triniaeth neu ofal a ddarperir gan nyrsys practis, y mae angen ei barhau ar benwythnosau, yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys ar draws y meysydd gofal sylfaenol a chymunedol weithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal cofleidiol i'r unigolyn. Gall hyn olygu adolygu llwybrau, sgiliau a ffyrdd presennol o weithio i sicrhau nad yw unigolion yn profi gostyngiad mewn gwasanaeth neu ansawdd, oherwydd oriau gweithredu gwahanol wasanaethau. Mae datblygu cyfleoedd cyfathrebu i nyrsys cymunedol ddod at ei gilydd yn bersonol neu'n rhithwir i adolygu ffyrdd o weithio yn hanfodol.

5.1.3 Nyrsys Arbenigol – Gall gwasanaethau weithredu dros amrywiaeth o oriau gwaith yn dibynnu ar y ffordd y maent wedi'u datblygu a'u comisiynu'n flaenorol. Lle bynnag y bo modd ac os yw'n briodol i anghenion y boblogaeth y maent yn gweithio gyda nhw, dylai mynediad at gyngor arbenigol ar gyfer nyrsys cymunedol fod ar gael ar draws y cyfnod 7 diwrnod yn ystod oriau gwaith craidd h.y., 9.00 – 5.00 pm.

Gall hyn olygu defnyddio cyfleoedd fel technoleg i gefnogi mynediad at nyrsys arbenigol, nyrsys arbenigol yn gweithio ar draws clystyrau, gan hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau gofal personol a/neu gyngor arbenigol sydd ar gael gan y tîm amlbroffesiynol ehangach. Mae hyn yn cydnabod cymhlethdod cynyddol y bobl a gefnogir mewn lleoliadau cymunedol a'r pwyslais ar alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a chynyddu hyder, gwybodaeth a sgiliau nyrsys cymunedol eraill.

Mae Nyrsys Arbenigol mewn perygl o gael eu hynysu ar benwythnosau a dylid adolygu sut y mae nyrsys arbenigol yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cadw mewn cysylltiad â nyrsys arbenigol a gweithwyr proffesiynol eraill dros y penwythnos. Gallai hyn gynnwys cydleoeli Gwasanaethau Nyrsys Ardal a Nyrsys Arbenigol gyda'i gilydd y tu allan i oriau arferol a byddai'n helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn gweithio ar eu pen eu hunain a gwella effeithlonrwydd.

5.1.4 Dylai mynediad i **Wasanaethau Nyrsio Cymunedol** fod yn hawdd i unigolion a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd, a dylai fod yn hawdd deall sut i wneud hynny. Gall Pwyntiau Mynediad Sengl fod yn ffordd o gyflawni hyn yn arbennig ar gyfer Gwasanaethau Nyrsys Ardal a/neu Nyrsys Arbenigol. Er enghraifft, gall pwyntiau mynediad sengl ar gyfer Nyrsys Gofal Lliniarol a Nyrsys Ardal a'u timau atal dyblygu ymdrech, gan sicrhau bod unigolion yn cael ymateb amserol gan y nyrs gywir sydd â'r sgiliau cywir, yn enwedig ar gyfer yr unigolion hynny ar ddiwedd eu hoes.

Dylai mynediad at wasanaethau o fewn a thu allan i oriau arferol ar gyfer atgyfeiriadau brys fod yn uniongyrchol i'r gwasanaeth, yn hytrach na thrwy weithiwr proffesiynol arall. Rhaid i atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol y tu allan i oriau gan wasanaethau Gofal Brys gan gynnwys Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau, gwasanaethau 111 a chlinigwyr Desg Cymorth Clinigol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Pharafeddygon lle mae llwybrau atgyfeirio uniongyrchol yn bodoli, fod yn uniongyrchol er mwyn sicrhau ymateb amserol.

Dylai trefniadau hunangyfeirio gan **unigolion sy'n hysbys** i wasanaethau nyrsio cymunedol, yn enwedig gwasanaethau nyrsio arbenigol, fod ar waith a dylid cyfleu'n glir y trefniadau ar gyfer sut y gall unigolion hunangyfeirio pan gânt eu derbyn i'r gwasanaeth.

5.2 Amseroedd ymateb

Mae'r adran isod yn cyfeirio at yr holl Wasanaethau Nyrsio Cymunedol oni nodir yn wahanol.

Gall y ffordd y mae gwasanaethau nyrsio cymunedol yn trefnu eu hunain i gyflawni'r ymateb brys dwy awr amrywio, yn ôl anghenion y boblogaeth leol a'r ffordd y mae gwasanaethau wedi'u trefnu. Canllaw yn unig yw'r diffiniadau ar gyfer yr amseroedd ymateb isod, gan y dylai'r penderfyniadau ynghylch y rhain fod yn seiliedig ar **farn glinigol broffesiynol**.

Gofal Brys - angen nyrsio brys sy'n debygol o arwain at fynd i'r ysbyty neu dderbyn claf i'r ysbyty os na chaiff yr unigolyn ei weld o fewn 2 awr

5.2.1 Gwasanaethau Nyrsio Ardal a Nyrsys Arbenigol:

Er mwyn galluogi pobl i dderbyn gofal amserol yn y cartref, gan atal ymweliadau diangen â'r ysbyty neu dderbyniadau diangen i'r ysbyty, rhaid i wasanaethau nyrsio arbenigol a nyrsio ardal allu ymateb i alwadau brys o fewn cyfnod o ddwy awr. Gall yr ymateb hwn gynnwys brysennu wyneb yn wyneb, dros y ffôn/fideo neu ymgynghoriad, gan arwain at gynllun rheoli sy'n diwallu anghenion yr unigolyn.

Rhaid i unigolion yn yr ychydig wythnosau/diwrnodau olaf o fywyd gael **ymateb brys** i alwadau ynghylch rheoli symptomau trallodus a/neu newidiadau sylweddol yng nghyflwr yr unigolyn. **Gall yr ymateb hwn gynnwys galwad brysennu cychwynnol a/neu ymweliad wyneb yn wyneb**, gan arwain at gynllun rheoli sy'n bodloni anghenion yr unigolyn.

Mae dull rhagweithiol rhwng gweithwyr proffesiynol a sefydliadau ar draws lleoliadau cymunedol/ymarfer yn allweddol i wneud y gorau o gynllunio rhagweladwy a lleihau materion brys y gellid bod wedi eu rhagweld. Dylid annog adolygu digwyddiadau o'r fath mewn cyfarfodydd tîm/amlbroffesiynol i ddeall y rhesymau dros y materion hyn, p'un a ellid bod wedi'u hatal ac a oes angen unrhyw newidiadau i arferion/llwybrau gofal.

Lle y caiff ei frysennu'n glinigol a'i gytuno gyda'r atgyfeiriwr, gellir cytuno ar ymateb o fwy na 2 awr hyd at uchafswm amser ymateb o 4 awr ar gyfer ymweliad wyneb yn wyneb. Rhaid cyfathrebu'r penderfyniad hwn yn glir i'r unigolyn neu'r gofalwr/teulu a'i gofnodi yn y cofnod clinigol.

Gall Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ddatblygu timau penodol i gefnogi ymateb brys. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal y gweithlu nyrsio cymunedol ehangach rhag datblygu sgiliau neu wybodaeth sy'n eu galluogi i ymateb i gyflwr newidiol unigolyn yn y cartref. Yn yr un modd, ni ddylai datblygiad unrhyw dimau o'r fath

arwain at ddyblygu, na gorgyffwrdd o ran y ddarpariaeth.

5.2.2 Gofal Di-frys - Rhaid i unigolion y nodir bod angen gofal nyrsio nad yw'n ofal brys arnynt gael ymweliad wyneb yn wyneb o fewn 72 awr, oni chytunir ar ymateb hwy ar ôl brysbennu clinigol a thrafodaeth gyda'r atgyfeiriwr. Rhaid cyfathrebu'r penderfyniad hwn yn glir i'r unigolyn neu'r gofalwr/teulu a'i gofnodi yn y cofnod clinigol.

Gofal Di-frys - bod yr unigolyn yn gallu aros am ymyriad nyrsio am hyd at 72 awr (gan gynnwys ar benwythnosau a gwyliau banc)

5.2.3 Gofal wedi'i Gynllunio - Rhaid i unigolion y nodir bod angen gofal

Gofal wedi'i Gynllunio – mae'r unigolyn yn gallu aros am ymyriad nyrsio am hyd at ddeg diwrnod gwaith

nyrsio wedi'i gynllunio arnynt gael ymweliad wyneb yn wyneb o fewn 10 diwrnod gwaith, oni chytunir ar ymateb hwy ar ôl brysbennu clinigol a thrafodaeth gyda'r atgyfeiriwr. Rhaid cyfathrebu'r penderfyniad hwn yn glir i'r unigolyn neu'r gofalwr/teulu a'i gofnodi yn y cofnod clinigol.

Rhaid cefnogi dyrannu ymweliadau drwy system amserlennu ar gyfer gwasanaethau Nyrsys Ardal a dylid ei ystyried ar gyfer gwasanaethau nyrsio arbenigol. Gall systemau amserlennu gefnogi'r broses o ddyrannu ymweliadau'n ddiogel ac yn amserol, a chefnogi'r gwaith o gofnodi amseroedd ymateb, gan hyrwyddo dull 'y nyrs iawn â'r sgiliau iawn, ar yr amser iawn'. Bydd angen i wasanaethau hefyd ystyried sut y mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r tîm amlbroffesiynol ehangach, i atal dyblygu ymweliadau ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau staffio. Dylai hyn hefyd gynnwys sut y gall gwasanaethau gydweithio i fodloni'r amseroedd ymateb uchod.

5.4 Cadw Cofnodion Clinigol

Mae gan wasanaethau nyrsio cymunedol systemau clinigol electronig ar waith i gofnodi eu gofal nyrsio, yn ystod neu yn syth ar ôl darparu gofal. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen seilwaith digidol symudol cadarn ar Nyrsys Cymunedol, sy'n caniatáu mynediad i systemau clinigol perthnasol. Mae hyn yn cefnogi ymarfer nyrsio amserol, diogelwch clinigol ac yn atal dyblygu'r wybodaeth a gofnodir, gan sicrhau gofal effeithiol o ansawdd uchel.

Rhaid i Wasanaethau Nyrsio Cymunedol fod â chynllun clir i gefnogi datblygiad trefniadau llywodraethu a rhannu cofnodion a gwybodaeth integredig, a all fod ar draws ystod o weithwyr proffesiynol, sefydliadau a ffiniau.

5.5 Y Defnydd o Dechnoleg

Dylai Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ddefnyddio technoleg lle bo modd, i gefnogi eu rhyngweithio ag unigolion a gweithwyr proffesiynol eraill. Dylai hyn gynnwys sut y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu i brif gofnod clinigol yr unigolyn.

Gall enghreifftiau o dechnoleg o'r fath gynnwys defnyddio ymgynghoriadau fideo, systemau e-amserlennu, meddalwedd ymgynghori dros y ffôn/ffotograffau/negeseuon o bell, yn ogystal â thechnoleg teleofal/teleiechyd. Rhaid cydbwysu'r defnydd o dechnoleg i gefnogi unigolion bob amser â hawliau unigolion i dderbyn gwasanaethau/adnoddau yn eu dewis iaith, yr hawl i wrthod a chydabod nad oes gan bob unigolyn y modd ariannol, y gallu na'r awydd i ddefnyddio dulliau digidol.

Lle y defnyddir offer amserlennu, mae nyrsys â sgiliau Cymraeg yn cael eu nodi o fewn y system ac yn cael euparu'n weithredol ag unigolion sydd wedi gofyn am Siaradwyr Cymraeg. Lle na ellir cefnogi'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg, dylid cofnodi hyn. Mae hyn yn caniatáu nodi bylchau mewn sgiliau Cymraeg a chynllunio ar gyfer y dyfodol o ran sut y gellir cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol.

5.6 Man gofal

5.6.1 Gellir darparu Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys practisau meddygon teulu, clinigau, cartrefi gofal, ysbytai cymunedol neu ganolfannau iechyd ac yng nghartref y person ei hun. Dylai unigolion sy'n gallu cael mynediad i leoliadau y tu allan i'w cartref ar gyfer eu gofal nyrsio gael eu hannog gan wasanaethau a gweithwyr proffesiynol i wneud hynny. Ni waeth ble y gwelir person ag anghenion nyrsio, rhaid i'r driniaeth, y cymorth a'r cyngor a ddarperir fod yn seiliedig ar ganllawiau sy'n

seiliedig ar dystiolaeth a sicrhau tegwch o ran y gofal a ddarperir.

5.6.2 Mae Gwasanaethau Nyrsio Ardal yn canolbwyntio'n benodol ar bobl na allant gael mynediad i leoliadau y tu allan i'w cartref, h.y. y rhai a elwir yn bobl sy'n gaeth i'w cartrefi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i rai unigolion nad ydynt yn gaeth i'r cartref dderbyn gofal nyrsio yn eu cartref eu hunain oherwydd salwch, eiddilwch sylweddol neu gyflwr meddygol arall a fyddai'n eu rhoi mewn perygl e.e. unigolion a chanddynt imiwnedd gwan.

5.6.3 Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol a gwasanaethau meddygol cyffredinol yn gweithio gyda'i gilydd gyda gwasanaethau statudol ac anstatudol i sicrhau bod unigolion na allant adael eu cartref oherwydd diffyg trafnidiaeth, yn gallu cael mynediad at wasanaethau nyrsio mewn lleoliadau eraill. Mae ynysigrwydd cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar iechedd a llesiant person ([Cysylltu Cymunedau 2020](#)) ac ni ddylai diffyg trafnidiaeth fod yn rhwystr i gael mynediad i unrhyw wasanaeth, neu'r gymuned ehangach.

5.6.4 Lleoliadau gofal amgen - Gall unigolion gael eu cefnogi yn y tymor hir mewn lleoliad gofal lle mae gweithwyr gofal ar gael. Cartref y person ei hun yw hwn ac mae gan unigolion hawl i gael mynediad at yr un lefel o gymorth nyrsio ag sydd ar gael i unrhyw berson sy'n byw mewn lleoliad cymunedol.

Pan fo unigolyn yn byw mewn lleoliad gofal gyda mynediad at nyrsys cofrestredig, efallai y bydd angen i Wasanaethau Nyrsio Cymunedol ddarparu cymorth ychwanegol **lle mae risg i iechedd a llesiant unigolyn**, gan gynnwys y risg o dderbyniadau diangen i ysbyty. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai gwasanaethau Nyrsio Cymunedol gydweithio ag aelodau eraill o'r tîm amlbroffesiynol, i ddarparu gofal cofleidol i'r unigolyn hwnnw ac i gefnogi'r gweithlu cartrefi gofal.

5.6.5 Wrth i waith Clwstwr gael ei ddatblygu a'i wreiddio ymhellach, mae'n bosibl y bydd y ffiniau traddodiadol rhwng ble a sut y mae Nyrsys Practis Cyffredinol, Gwasanaethau Nyrsys Ardal a Nyrsys Arbenigol yn gweithio, yn mynd yn fwy niwlog. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i'r gweithlu nyrsio weithio ar draws ffiniau lleoedd a sefydliadau gan ganolbwyntio ar bwy yw'r nyrs iawn i ddiwallu anghenion yr unigolyn, yn hytrach nag ar ffiniau sefydliadol traddodiadol.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid galluogi Nyrsys o fewn clystyrau ac ar draws sefydliadau gwahanol i ddod at ei gilydd i adolygu llwybrau gofal a ffyrdd presennol o weithio. Bydd hyn yn sicrhau bod Nyrsys yn cynnig y gwasanaeth gorau i'r unigolyn gan hyrwyddo tegwch a chysondeb o ran y canlyniadau, ochr yn ochr â'r defnydd gorau o adnoddau. Gall hyn fod fel rhan o'r rhaglenni cydweithredol proffesiynol a/neu'r cyfarfodydd nyrsio cymunedol a gynhelir bob deufis, **fel yr amlinellir yn adran 10.3**.

Lle y ceir cyfleoedd i ddatblygu newidiadau i lwybrau, mae angen cael strwythurau a phrosesau clir ar waith i sicrhau bod gwaith yn cael ei ddosbarthu'n deg ar draws y gweithlu nyrsio cyfan. Rhaid dangos hyn drwy fesurau sy'n cadarnhau'r manteision, y canlyniadau a'r profiad i unigolion, Nyrsys, a'r system iechedd a gofal cymdeithasol ehangach.

6. Ystyriaeth Clinigol Penodol

6.1 Offer Eiddilwch - Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn defnyddio offeryn eiddilwch sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a all fod yn electronig e.e., Ap Graddfa Eiddilwch Clinigol. Mae hyn yn caniatáu i eiddilwch gael ei nodi a'i asesu yn gyson. Lle bo angen, dylai nyrsys cymunedol weithio fel rhan o'r tîm amlbroffesiynol ehangach i helpu i gwblhau Asesiad Geriatrig Cynhwysfawr, a fydd yn arwain at ddatblygu cynllun gofal personol. Gall unrhyw weithiwr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar gyflawni Asesiad Geriatrig Cynhwysfawr arwain a chydlynu'r broses o gwblhau asesiad o'r fath.

6.2 Adsefydlu ar ôl salwch - Mae gan Wasanaethau Nyrsio Cymunedol y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi unigolion, i ailgydio mewn bywyd bob dydd a gweithgareddau ar ôl salwch. Mae'r dull hwn, fel rhan o'r cynnig amlbroffesiynol ehangach ar gyfer adsefydlu ac adferiad, yn bwysig i sicrhau bod unigolion yn gallu hunanofalu a rheoli eu hanghenion yn annibynnol lle bynnag y bo modd.

6.3 Rheoli cathetrau yn yr wrethra ac uwchlaw'r arffed - Gwasanaethau Nyrsio Ardal fel y gwasanaeth nyrsio cymunedol craidd, yn meddu ar y sgiliau clinigol a'r arbenigedd perthnasol i reoli sefyllfaoedd brys yn

ymwneud â chathetrau, gan gynnwys cathetrau wedi'u blocio, **Ile maent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer newid/gosod cathetrau yn y gymuned.**

Dylai Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol fod ar gael i ymateb i geisiadau brys gan unigolion a/neu asiantaethau eraill e.e., WAST/111/Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau p'un a yw'r unigolyn yn defnyddio gwasanaethau Nyrsys Ardal fel arfer ai peidio. Dylai rhywun â chathetr wedi blocio lle nad yw wrin yn llifo drwyddo a **Ile maent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer newid/gosod cathetrau yn y gymuned** allu cysylltu'n uniongyrchol â gwasanaeth Nyrsys Ardal a chael eu gweld o fewn 2 awr, oni phenderfynir yn dilyn brysbennu clinigol bod angen eu hatgyfeirio i wasanaeth arall, neu nad oes angen ymateb ar unwaith. Rhaid cyfathrebu'r penderfyniad hwn yn glir i'r unigolyn neu'r gofalwr/teulu a'i gofnodi yn y cofnod clinigol.

6.4 Rheoli Clwyfau - Bydd gan nyrsys o fewn y Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol lefelau amrywiol o wybodaeth a sgiliau ar reoli clwyfau yn dibynnu ar eu rôl a'u maes ymarfer. Fodd bynnag, dylai fod gan bob nyrs gofrestredig y gallu i reoli clwyfau syml gan gynnwys;

- Tynnu pwythau neu glipiau
- Rheoli clwyfau ar ôl llawdriniaeth e.e. gwirio clwyf a rhoi dresin newydd
- Rhoi dresin/dresin newydd ar glwyfau syml nad ydynt yn gymhleth
- Adnabod wlsrau gwythiennol/rhydweiliol
- Adnabod clwyfau statig neu glwyfau sy'n dirywio
- Adnabod a rheoli niwed yn sgil pwysau

Gall clwyfau cymhleth lle mae angen hyfforddiant ychwanegol ar nyrsys ac asesiad o gymhwysedd a/neu oruchwyliaeth gan Nyrsys Hyfywedd Meinwe e.e. therapi clwyf pwyso negyddol, therapi larfa neu rwymyn cywasgu, gael eu darparu'n llawn neu'n rhannol gan ystod o wasanaethau nyrsio cymunedol er mwyn diwallu anghenion unigolion a/neu boblogaeth leol. Gall hyn gynnwys atgyfeirio i glinigau cymunedol lleol, yn hytrach na bod y person yn cael ei weld gartref neu mewn practis meddyg teulu.

Pan fo gofal unigolyn yn cael ei rannu rhwng gwahanol wasanaethau nyrsio cymunedol, rhaid i systemau a phrosesau cyfathrebu fod ar waith, i sicrhau bod y gofal yn ddi-dor ac i atal dyblygu.

6.5 Pontio - Yn aml, gall unigolion ag anghenion iechyd a llesiant cymhleth gan gynnwys y rhai â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a'u teuluoedd sydd angen eu trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, brofi anawsterau yn ystod y broses hon.

Mae'n hanfodol bod Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i Oedolion yn dilyn yr arferion gorau a amlinellir yn y [Canllawiau Pontio a Throsglwyddo Cymru Gyfan \(2022\)](#). Mae gweithio ar y cyd â swyddogion addysg, tai, darparwyr gofal ac aelodau eraill o'r tîm amlbroffesiynol a'r gymuned, yn hanfodol er mwyn grymuso pobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd. Bydd angen i hyn gael ei gefnogi gan ddatblygiad cydweithredol o gynlluniau gofal personol cynhwysfawr a phecynnau cymorth a pharhad y llwybrau presennol, yn enwedig ar gyfer unigolion ar ddiwedd eu hoes.

Gall pontio hefyd gynnwys unigolion sy'n symud i ardal newydd, neu i leoliad cymorth gwahanol. Er enghraifft, unigolion sy'n symud o wasanaethau anabledd dysgu, fel byw'n gefnogol i gartrefi gofal.

Dylai trafodaethau rhwng gwasanaethau e.e., rhwng gwasanaethau plant ac oedolion neu rhwng darparwyr gwahanol o fewn gwasanaethau oedolion ynghylch y ffordd orau o wneud hyn, ddechrau cyn gynted â phosibl. Gall hyn gynnwys rhannu polisiâu, canllawiau a hyfforddiant drwy wasanaethau plant neu wasanaethau oedolion arbenigol, i alluogi nyrsys cymunedol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r unigolyn.

6.6 Gofal Diwedd Oes - Rhaid i unigolion sydd ar ddiwedd eu hoes sy'n dewis eu cartref fel man gofal a lle i farw, a'u gofalwyr/teuluoedd, allu cysylltu'n brydlon ac yn uniongyrchol â gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i gael cyngor a chymorth amserol. Yn eu tro, rhaid i wasanaethau Nyrsio Cymunedol allu cael mynediad uniongyrchol i gyngor gofal lliniarol arbenigol 24/7, a deall sut y mae eu gwasanaethau lleol yn darparu'r cymorth hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda'r nos a thros nos pan fydd llai o weithwyr iechyd proffesiynol eraill ar gael.

Rhaid i Wasanaethau Nyrsio Cymunedol sicrhau bod dull cynllunio gofal rhagweithiol a phersonol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi unigolion yn nyddiau olaf bywyd a'u teuluoedd. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft, adolygiad dyddiol gan nyrsys ardal a chydgyssylltu gofal a chymorth yn ôl yr angen, yn ogystal â mynediad cyflym at offer. Dylid sicrhau mynediad 24/7 at feddyginiaethau rhagweledol (Rhag ofn) a'u gweinyddu er mwyn atal neu leihau oedi wrth reoli symptomau a mynediad hwylus at gyngor a chymorth gofal lliniarol arbenigol mewn modd amserol yn ôl yr angen. Lle y bo'n briodol, ac mewn cydweithrediad â'r meddyg teulu a'r teulu, dylai gofal gael ei arwain gan Ganllawiau Penderfyniadau Gofal Cymru Gyfan ar gyfer dyddiau olaf bywyd.

Mae gofal i'r person a'i deulu yn ymestyn i'r cyfnod ar ôl i unigolyn farw. Mae hyn yn golygu y dylai Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol, ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r tîm amlbroffesiynol, allu darparu gwiriad amserol o'r farwolaeth ddisgwyliedig i bobl sy'n cael eu gweld gan eu gwasanaeth a chyfeirio gofalmwyr/aelodau o'r teulu at gyngor ymarferol a chymorth ar ôl profedigaeth yn ôl yr angen.

Er mwyn sicrhau iechyd a gofal sy'n seiliedig ar werth ar ddiwedd oes, mae angen i arweinwyr gwasanaethau nyrsio cymunedol ddangos gofal diogel ac effeithiol yn unol ag argymhellion a metrigau a gymeradwywyd gan Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes ac yn unol â'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes.

7. Cwmpas ymarfer

Mae Meddygon Teulu, Nyrsys Ardal a Nyrsys Arbenigol yn darparu gofal nyrsio, triniaeth a chymorth ar draws maes eang o ymarfer nyrsio. Er y bydd cwmpas ymarfer Nyrsys yn amrywio yn ôl sgiliau, gwybodaeth, gallu a statws cofrestru'r Nyrs, mae rhai meysydd sylfaenol sy'n gyffredin i bawb. Isod, rhoddir crynodeb o'r meysydd hyn ar gyfer yr holl Nyrsys Ardal, Nyrsys Practis Cyffredinol, Nyrsys Arbenigol a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. **Ni fwriedir i hon fod yn rhestr gyflawn** ac mae egwyddorion cydweithio sy'n rhoi'r sgiliau iawn i'r person iawn ar yr adeg iawn, yn parhau i fod yn ganolog i gefnogi unigolion.

Meysydd Sylfaenol o Ymarfer a Sgiliau ar gyfer Pob Nyrs Gymunedol Gofrestredig a Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd

Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Sgyrsiau am yr Hyn sy'n Bwysig i Mi

Sgiliau cyfathrebu gan gynnwys cyfathrebu mewn modd parchus, gwrandao gydag empathi, diogelu preifatrwydd a hybu annibyniaeth

Hyfforddiant Hawliau Dynol a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cadw Pobl yn Ddiogel (diogelu a hunan-esgeuluso) a mynd i'r afael ag anghenion hanfodol e.e. maeth, hylendid personol, anghenion iechyd synhwyrdd, mewn modd sensitif

Dealltwriaeth o Alluedd Meddyliol/Cydsynio ac Atwrneiaeth Arhosol

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Gweithio'n ddiogel yn y Gymuned/Lleoliadau Gymunedol

Gwaith Tîm Amlbroffesiwn gan gynnwys gweithio'n rhithwir i ddatblygu a chynnal cydweithio

Sgiliau digidol i alluogi'r defnydd o Dechnoleg a gweithio'n symudol

Arsylwi h.y., Pwysedd Gwaed, Pwls, Cyfradd Anadlu, Tymheredd, Taldra, Pwysau a Chwblhau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) Cymru

Gofalu am Friwiau Pwyso

Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl

Defnyddio Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad (SBAR) i gyfleu pryderon

Gofalu am eu Hunain ac am eu Cydweithwyr

Dealltwriaeth o archwiliad clinigol

Meysydd Sylfaenol o Ymarfer ar gyfer Pob Nyrs Gymunedol Gofrestredig ac yn Dibynnu ar y Rôl, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd

Gofalu am glwyfau nad ydynt yn gymhleth	Adnabod Eiddilwch	Atal salwch a Hybu iechyd, hunanofal a llesiant
Hyfforddiant gofal dementia gan gynnwys deall, adnabod a rheoli cyflyrau sy'n gysylltiedig â dementia	Hyrwyddo Ymataliaeth	Egwyddorion galluogi annibyniaeth ac adsefydlu a dealltwriaeth ohonynt
Deall penderfynyddion ehangach iechyd		Rheoli a datrys Gwrthdaro

Er bod y canlynol yn cael eu hystyried yn sylfaenol ar gyfer **pob** nyrs gofrestrredig sy'n gweithio o fewn gwasanaethau nyrsio cymunedol, gall lefel y wybodaeth a'r sgiliau yn y meysydd hyn amrywio yn ôl y maes ymarfer.

Meysydd Sylfaenol o Ymarfer ar gyfer Pob Nyrs Gymunedol Gofrestredig		
Deall data ar Anghenion y Boblogaeth	Sgiliau Hybu Iechyd gan gynnwys hybu hunanofal	Atal derbyniadau i'r ysbyty gan gynnwys adnabod rhywun y mae ei gyflwr yn dirywio
Imiwneiddiadau, yn benodol y rhai ar gyfer y fflw, covid-19, niwmococol	Gwybodaeth am reoli cyflwr hirdymor	Gwybodaeth am ofal lliniarol a gofal diwedd oes, gan gynnwys cadarnhau Marwolaeth Ddisgwyliedig
Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw/Trafodaethau ar gyfer y Dyfodol	Rheoli clwyfau - clwyfau syml	Darparu cymorth wrth ryddhau pobl o'r ysbyty
Adnabod yn gynnar / Sgrinio / Lleihau risg / Addysg a chymorth	Defnyddio technoleg a chymwysiadau symudol i helpu i roi cyngor/asesu angen, monitro iechyd a chefnogi hunanreolaeth	Strategaethau newid ymddygiad
Gwneud penderfyniadau integredig ar y cyd	Sgiliau asesu cyfannol a sgiliau meddwl yn feirniadol	Sgiliau cyfathrebu da
Rheoli risg	Rheoli diogelu a hunanesgeuluso	Arweinyddiaeth dosturiol
Mentora a/neu oruchwylio a/neu/sgiliau asesu ar gyfer myfyrwyr ac eraill	Gofal iechyd darbodus a gofal iechyd yn seiliedig ar werth	Gwybodaeth am welliannau i ansawdd a datblygiad gwasanaeth i ddangos gwerth y gwasanaeth
Deall sut i ddefnyddio data i lywio ymarfer	Dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd ac anghenion grwpiau agored i niwed	Sut i ddefnyddio dulliau mesur canlyniadau i ddylanwadu ar ymarfer a'i newid
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o effaith iechyd ar waith ac effaith gwaith ar iechyd	Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus ac Offer Cefnogi Penderfyniadau mewn Gofal Cymunedol a Sylfaenol	Cyfweld ysgogiadol

Dealltwriaeth o Drefniadau Llywodraethu Clinigol yng nghyd-destun gweithio mewn gwasanaethau amlbroffesiynol/integredig	Dealltwriaeth o'r broses Gomisiynu a datblygu cyllidebau a rennir mewn perthynas ag ymarfer nyrsio	Trefniadau Diogelu Rhyddid
---	--	----------------------------

Mae'r meysydd a nodir isod yn elfen fach o'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymarfer ar lefel uwch. Rhaid i nyrsys sy'n gweithio mewn rolau clinigol uwch e.e. Uwch Ymarferwyr Nyrsio, neu Nyrsys Ymgynghorol, feddu ar gwmpas ymarfer clir a swydd-ddisgrifiad sy'n amlinellu'n glir sut y mae'r 4 piler ymarfer clinigol uwch isod yn cael eu bodloni:

- Gofal clinigol,
- Arweinyddiaeth a rheoli
- Hwyluso dysgu a thystiolaeth
- Ymchwil a datblygu

Hanfodion Ymarfer Clinigol Uwch (Addysg hyd at lefel Meistr neu gymhwyster cyfatebol)		
Asesiad Clinigol a Rhesymu Diagnostig	Iechyd a Llesiant Meddyliol	Ymarfer awtonomaidd
Sgiliau Arwain a Meddwl yn Feirniadol	Mentrau gwella ymarfer a/neu Ddatblygu Gwasanaeth Strategol	Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygiad
Hwyluso Dysgu	Dealltwriaeth fanwl o'r hunan fel elfen hanfodol o'r berthynas a pharch therapiwtig h.y., Trafodol v Gofal perthynol	Presgripsiynu Anfeddygol neu Bresgripsiynu Atodol, yn dibynnu ar y rôl
Cymhwyster Ymarfer Arbenigol (SPQ), os yw'n berthnasol i'r rôl	Pennu Lefel Risg y Boblogaeth	Ymwybyddiaeth gynhwysfawr o'ch gwerthoedd a'ch rhagfarnau

Bydd angen i wasanaethau nyrsio cymunedol roi prosesau ar waith i nodi a datblygu sgiliau yn rhagweithiol, gan adlewyrchu anghenion eu poblogaeth leol. Mae rhagor o wybodaeth am gymwyseddau a sgiliau penodol ar gyfer Nyrsys Ardal a Nyrsys Practis Cyffredinol a allai fod yn ddefnyddiol ar gael isod;

- [District Nursing and General Practice Nursing Service Education and Career Framework](#) (Health Education England 2015)
- [Fframwaith Cymhwysedd GIG Cymru i Nyrsys sy'n Gweithio mewn Ymarfer Cyffredinol](#)
- [Framework for Advanced Nursing, Midwifery and Allied Health Professional Practice in Wales](#)

8. Sgiliau Arwain a Rheoli


Bydd Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn galluogi nyrsys i ddatblygu a gweithio fel arweinwyr tosturiol. Mae arweinyddiaeth dosturiol yn cefnogi Nyrsys i weithio o fewn diwylliannau sefydliadol lle mae'n ddiogel i Nyrsys herio, bod yn ddifffuant, arwain drwy esiampl, rhannu eu syniadau a chefnogi mentrau ansawdd gan weithio gydag eraill i wella gofal ar gyfer yr unigolyn.

Mae'r system Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn esblygu'n gyson ac mae angen datblygu Nyrsys i arwain a chefnogi ffyrdd trawsnewidiol o weithio.

Er mwyn cyflawni hyn dylid galluogi Nyrsys i ddatblygu a/neu wella sgiliau a gwybodaeth bresennol mewn coetsio a mentora, dylanwadu ar gyd-drafod, gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn grymuso Nyrsys i ddarparu arweinyddiaeth glinigol, gan weithredu fel eiriolwyr cryf, gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu llwybrau gofal sy'n galluogi hunanofal, sy'n gwella iechyd a llesiant unigolyn ac sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl.

Gellir cael mynediad i amrywiaeth o adnoddau a rhaglenni arweinyddiaeth glinigol drwy [- Gwella - Porth Arweinyddiaeth AaGIC](#)

Fel Arweinwyr Tosuriol ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru byddwn yn...



Ffigur 2 [Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol - Gwella - Porth Arwain AaGIC i Gymru](#)

9. Trefnu Gofal

9.1 Mae gwasanaethau nyrsio cymunedol yn gallu dangos sut y mae cydweithio wedi'i ategu gan systemau TG a rennir, protocolau a rennir, canllawiau, llwybrau a gweithdrefnau gweithredu safonol yn gweithio o fewn ac ar draws clystyrau. Rhaid i hyn fod ar y cyd â defnyddio dulliau cyffredin o fesur canlyniadau a phrofiad a adroddir gan bobl, a fydd yn galluogi nyrsys i werthuso'r gofal y maent yn ei ddarparu a nodi meysydd i'w gwella.

Capasiti – argaeledd nyrsys a'u sgiliau o fewn y clwstwr i ddiwallu anghenion y boblogaeth y maent yn ei gweld.

Galw – anghenion nyrsio unigolion o fewn clwstwr. Gall y rhain fod yn anghenion gwirioneddol neu'n anghenion a ragwelir yn seiliedig ar angen y boblogaeth leol a/neu wybodaeth leol. Dylai hyn ystyried datblygiadau tai newydd, gan gynnwys cartrefi gofal newydd neu gyfleusterau tai gwarchod.

Rhaid i ddatblygiad unrhyw wasanaethau cymunedol newydd gyda nyrsio ystyried unrhyw effeithiau gwirioneddol a phosibl ar wasanaethau nyrsio cymunedol presennol, gan gynnwys dyblygu gofal, effaith ar ofal di-dor ac effaith ar unigolion a theuluoedd.

Mae angen i Wasanaethau Nyrsio Cymunedol allu dangos sut y mae capasiti a galw yn cael eu nodi a'u rheoli, er mwyn lleihau unrhyw effeithiau ar y gallu i ddarparu gofal nyrsio neu driniaethau diogel, effeithiol ac ymatebol i unigolion.

Dylid ystyried offer a all helpu i ddisgrifio cymhlethdod a/neu aciwtedd anghenion unigolion ac a all roi sicrwydd ychwanegol o ran sut y caiff yr anghenion hynny eu diwallu, pan fyddant ar gael.

9.2 Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn gallu dangos sut y maent yn bodloni gofynion canllawiau cydnabyddedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys;

- y rhai sy'n ymwneud â'r gweithlu e.e. [Deddf Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\) 2016 \(legislation.gov.uk\)](#) neu [Safonau Gweithlu Nyrsio y Coleg Nyrsio Brenhinol](#)
- Polisi cenedlaethol a/neu ganllawiau gan sefydliadau proffesiynau penodol a/neu safonau/canllawiau clinigol.

Mae pob Nyrs mewn Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn cael **amser digonol wedi'i neilltuo** i ofalu'n sensitif am bobl drwy:

- Sgyrsiau 'Beth sy'n bwysig i mi' gydag unigolion
- Asesiad cyfannol o anghenion unigolyn, sy'n ymgorffori dull ataliol/addysgol
- Cwblhau cofnodion clinigol gan gynnwys cynllunio gofal, asesu ac adolygu canlyniadau
- Cwblhau gweithgareddau sydd eu hangen i gefnogi'r unigolyn a/neu ei deulu e.e., atgyfeiriadau
- Amser teithio - yn dibynnu ar y rôl/gwasanaeth

Gall yr amser a neilltuir adlewyrchu maes a lefel ymarfer y Nyrs.

9.3 Mae gan bob gwasanaeth Nyrsio Cymunedol fesurau uwchgyfeirio sydd wedi'u diffinio'n glir sy'n amlinellu pryd mae'r galw am ofal nyrsio wedi mynd y tu hwnt i gapasiti a'r mesurau y dylid eu cymryd i sicrhau bod gofal nyrsio a thriniaeth yn parhau i fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn ymatebol.

Mae arwyddion o 'faneri coch' neu feysydd sy'n peri pryder ar gyfer unrhyw Wasanaeth Nyrsio Cymunedol, y dylid eu nodi mewn offer uwchgyfeirio yn cynnwys:

- Anallu i adolygu unigolion o fewn safonau gwaith arferol ar gyfer y maes ymarfer hwnnw
- Gohirio ymweliadau cartref sydd â'r potensial i gael effaith negyddol ar iechyd neu lesiant unigolyn, bob dydd neu bron bob dydd
- Anallu i ymweld neu weld unrhyw unigolyn ag angen brys, a allai arwain at fynychu gwasanaethau Gofal Brys neu Ofal Mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod, gwasanaethau y Tu Allan i Orlau, Adran Achosion Brys a/neu gael eu derbyn i'r ysbyty.
- Anallu i gefnogi pobl sydd ar ddiwedd eu hoes yn y man gofal o'u dewis – gall hyn gynnwys oedi wrth eu rhyddhau o'r ysbyty neu hosbisau
- Trosiant uchel a lefelau uchel o salwch ymysg y staff – a all gynnwys aelodau ehangach o'r tîm amlbroffesiynol, gan gydnabod yr effaith y gallai hyn ei chael ar wasanaethau nyrsio cymunedol
- Nyrsys yn mynegi pryderon am eu llesiant eu hunain a/neu lesiant eu cydweithwyr e.e., oherwydd na allant gymryd egwyl, eu bod yn gweithio mwy o oriau na'r hyn y cânt eu talu amdano, neu y gofynnir iddynt weithio sifftiau ychwanegol
- Nyrsys yn mynegi pryder bod risg, yn eu **barn broffesiynol** nhw, o ofal a thriniaeth anniogel, a allai arwain at niwed y gellir ei osgoi i unigolion

9.4 Dylai fod systemau clir ar waith ar gyfer sut y caiff newidiadau yn y galw a'r capasiti eu huwchgyfeirio i uwch nyrsys, meddygon teulu, arweinwyr clystyrau a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill o fewn y clwstwr. Dylai hyn gynnwys sut yr ymatebir i uwchgyfeirio, canlyniadau'r camau a gymerwyd a sut y caiff hyn ei fwydo'n ôl i Nyrsys.

9.5 Gall fod amgylchiadau eithriadol lle mae'r galw yn llawer mwy na'r capasiti o fewn Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol e.e., yn ystod pandemig. O dan yr amgylchiadau hyn, gall nyrsys fod yn gweithio mewn sefyllfaoedd lle mae lefelau staffio yn is na'r safon arferol ar gyfer y maes hwnnw, lle mai dim ond unigolion â'r angen nyrsio mwyaf sy'n cael eu gweld a lle mae'r gofal a ddarperir i unigolion mewn perygl o gael ei beryglu.

Mae'n hanfodol bod Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn cydweithio o dan yr amgylchiadau hyn i gefnogi'r unigolion hynny sydd â'r anghenion nyrsio mwyaf. Gall hyn olygu gweithio y tu allan i faes ymarfer arferol nyrs, mewn amgylcheddau anghyfarwydd neu ar draws ffiniau sefydliadol.

Yn ogystal â mesurau uwchgyfeirio a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i gefnogi cynnydd yn y galw, dylai'r canlynol fod ar waith:

- Polisiâu clir ar sut y mae Nyrsys yn cael eu symud rhwng ardaloedd a sefydliadau
- Nodi unrhyw hyfforddiant/cymorth ychwanegol sydd ei angen er mwyn i Nyrsys ddarparu gofal nyrsio yn ddiogel, os ydynt yn gweithio mewn lleoliadau neu feysydd ymarfer gwahanol
- Offer i gefnogi penderfyniadau er mwyn cynorthwyo Nyrsys i nodi pa unigolion i'w blaenoriaethu
- Mynediad ychwanegol at gymorth ar gyfer llesiant emosiynol

9.6 Mae gan y Gwasanaethau Nyrsys Ardal fel y gwasanaeth nyrsio craidd 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, lwyth achosion y gellir ei reoli ac sy'n bodloni'r argymhellion a amlinellwyd yn Sefydliad Nyrsio'r Frenhines (QNI). ['Workforce Standards for the District Nursing Service' \(2022\) a Swyddfa Archwilio Cymru Gwasanaethau Nyrsio Ardal yng Nghymru - Rhestr wirio i Aelodau Byrddau](#). Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes angen camau lliniaru, yn seiliedig ar farn broffesiynol y Nyrsys lle mae:

- llwythi achosion **fesul nyrs gofrestredig cyfwerth ag amser llawn** yn fwy na 150 o bobl
- nifer yr ymweliadau yn fwy na 9-10 **fesul nyrs gofrestredig, fesul shift**

Mae safonau gweithlu QNI yn amlygu sut y mae'r ffactorau uchod yn cael effaith ar gynyddu faint o waith sy'n cael ei adael heb ei wneud, gan arwain at oedi wrth ddarparu gofal i unigolion.

Er mwyn sicrhau bod digon o amser i gynnal y broses nyrsio lawn mae Safonau Gweithlu QNI (2022) yn argymhellu y dylid trefnu ymweliad cartref gan Nyrs Gofrestredig am o leiaf 30 munud.

Er y gall gweithwyr proffesiynol eraill ymweld â phobl ar lwyth achosion Nyrs Ardal, dylai'r unigolyn gael ei asesu gan nyrs gofrestredig o leiaf **bob pedwerydd ymweliad, neu bob 6 mis**, pa un bynnag sydd gyntaf, er mwyn cynnal y broses nyrsio lawn.

9.7 Mewn sefyllfaoedd lle mae nifer yr ymweliadau yn fwy na 9-10 fesul nyrs gofrestredig, fesul sifft, ymysg y ffactorau ychwanegol y gallai fod angen i'r Arweinydd Tîm Nyrsys Ardal eu hystyried mae:

- Lleoliad ymweliadau e.e. nyrs yn ymweld â chartref preswyl lle y gall gynnal ymweliadau lluosog o fewn y lleoliad hwnnw
- Aciwtedd a chymhlethdod yr unigolion sy'n cael eu gweld
- Data ar alw a chapasiti o system amserlennu
- Lefel uwchgyfeirio y tîm, y gwasanaeth a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Ar ôl asesu'r ffactorau ychwanegol hyn, efallai y bydd angen i'r Arweinydd Tîm Nyrsys Ardal neu'r Dirprwy, ar y cyd ag Uwch Nyrs, gynyddu nifer yr ymweliadau y gofynnir i nyrsys cofrestredig eu cwblhau ar gyfer **y shift honno**.

9.8. Lle mae ymweliadau ar gyfer Nyrsys Cofrestredig yn fwy na 9-10 fesul shift mewn tîm ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau (h.y., 4 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 7 diwrnod), cynhelir adolygiad o ddata ar y galw a'r capasiti ar gyfer y tîm Nyrsys Ardal hwnnw a'r Gwasanaeth Nyrsio ehangach a datblygir cynllun gweithredu gydag amserlenni clir. Dylai'r adolygiad gynnwys cyfleoedd i gymysgu sgiliau'n ddiogel a chyfleoedd i symleiddio/gwella ffyrdd o weithio gyda'r tîm amlbroffesiynol ehangach.

Mae ymweliadau cynyddol uwchlaw 9-10 y dydd fesul nyrs gofrestredig yn cael effaith o gynyddu faint o waith sy'n cael ei adael heb ei wneud, gan arwain at oedi cyn darparu gofal i unigolion (Safonau Gweithlu QNI 2022).

Mae systemau amserlennu wedi'u cynllunio i helpu Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i drefnu ymweliadau drwy ddyrannu unigolion i'r nyrs gywir sydd â'r sgiliau cywir. Er y defnyddir **cyfnod amser dangosol** ar gyfer amserlennu, gall nyrs gofrestredig adolygu'r amser hwn. Nid yw offer amserlennu wedi'u cynllunio i ddisodli barn broffesiynol nyrs gofrestredig, nac i atal digon o amser rhag cael ei neilltuo i alluogi nyrsys i ddarparu gofal mewn modd sensitif.

9.9 Cefnogir arweinwyr timau Nyrsys Ardal a'u dirprwyon, ynghyd â deiliaid llwyth achosion, i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol fel y Cymhwyster Ymarfer Arbenigol (SPQ), neu radd nyrsio cymunedol ôl-gofrestru. Mae hyn oherwydd y sylfaen dystiolaeth glir sy'n dangos y manteision y mae'r SPQ yn eu darparu i bobl a welir gan y gwasanaeth.

9.10 Er mwyn hyrwyddo parhad gofal unigolyn, dylai fod gan bob tîm nyrsys ardal o fewn clwstwr gyflenwad staff o ddim mwy na 15 o staff / 12 cyfwerth ag amser cyflawn. Mae angen i hyn gynnwys codiad o 26.9% ar gyfer staffio ac o leiaf 15 awr o gymorth gweinyddol yr wythnos fesul tîm Nyrsys Ardal.

9.11 Mae timau Nyrsys Ardal wedi'u strwythuro fel eu bod yn cyd-ffinio â'r clwstwr ac mae ganddynt gymdogaeth, parth neu ardal ddaearyddol benodol ac adnabyddadwy o fewn y clwstwr. Os yw'r anghenion nyrsio a ragwelir ar gyfer y boblogaeth leol yn cynyddu ac na ellir bodloni'r argymhellion uchod, rhaid ystyried yr angen am nyrsys cofrestredig ychwanegol neu dîm Nyrsys Ardal (lle mae tîm mawr yn dod yn broblem). Rhaid i farn broffesiynol, [Egwyddorion Staffio Nyrsys Ardal Dros Dro](#) a gwybodaeth leol am ffactorau a allai ddylanwadu ar wasanaethau Nyrsys Ardal, gael eu cynnwys yn yr asesiad hwn.

9.12 Dylai unrhyw asesiad gynnwys y manteision, yr anfanteision a'r risgiau i'r boblogaeth leol, y gweithlu nyrsio niwroddatblygiadol, y gweithlu nyrsio cymunedol ehangach a pherthnasoedd â phractisau meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Caiff canlyniadau unrhyw asesiad risg a phenderfyniad eu cyfathrebu'n glir â'r holl randdeiliaid allweddol.

10. Cyfathrebu

Mae cyfathrebu ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau nyrsio cymunedol a'u gofalwyr a/neu eraill arwyddocaol yn hanfodol. Mae hyn yn galluogi unigolion i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu gofal ac i gymryd rhan yn y gwaith o reoli eu hanghenion nyrsio lle y bo'n briodol.

Er mwyn sicrhau bod anghenion nyrsio unigolion yn cael eu rheoli'n ddiogel, mae cyfathrebu amserol rhwng nyrsys o fewn clystyrau yn ogystal â meddygon teulu, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ac Aelodau Eraill o'r tîm amlbroffesiynol yn hanfodol.

Dylai pob practis meddyg teulu fod yn ymwybodol o aelodau'r timau Nyrsys Ardal a Nyrsys Arbenigol, sy'n darparu gwasanaethau i unigolion sydd wedi'u cofrestru yn eu practis. Bydd hyn yn helpu i atal oedi wrth rannu gwybodaeth glinigol rhwng nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn.

Dylai technoleg fod ar gael i gefnogi cyfathrebu effeithiol rhwng nyrsys, a'r tîm amlbroffesiynol ehangach. Mae angen galluogi hyn drwy neilltuo amser penodedig o fewn y diwrnod gwaith i nyrsys fynychu cyfarfodydd amlbroffesiwn a/neu drafod ag unigolion a'u gofalwyr lle bo angen.

10.1 Dulliau Cyfathrebu Penodol i'r Unigolyn

10.1.1 Mae gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn rhan o gyfarfodydd amlbroffesiynol rheolaidd yn unol ag arfer gorau, a ddylai o leiaf ganiatáu trafodaeth glinigol, adolygu a rheoli unigolion sydd:

- Â chyflwr sy'n gwaethygu, eiddilwch sylweddol neu anghenion iechyd/iechyd meddwl cymhleth a allai arwain at gael eu derbyn neu fynd i'r ysbyty heb ei gynllunio
- Â chyflwr sy'n gwaethygu, eiddilwch sylweddol neu anghenion iechyd/iechyd meddwl cymhleth a allai arwain at gael eu derbyn neu fynd i'r ysbyty heb ei gynllunio o fewn y 5 diwrnod diwethaf
- Yn cael eu hystyried yn unigolion sydd ym mlwyddyn, misoedd neu ddyddiau olaf eu bywyd a bod ganddynt anghenion gofal lliniarol
- Ag anghenion cymhleth sy'n gofyn am ddull amlbroffesiynol
- Mewn perygl sylweddol o niwed oherwydd materion diogelu neu hunanesgeulustod
- Â chyflwr sydd mewn perygl o waethygu neu sydd wedi gwaethygu, gan olygu na all unigolyn gyflawni ei swydd.

Gall cyfarfodydd amlbroffesiynol chwarae rhan bwysig mewn datblygu perthynas waith effeithiol rhwng aelodau'r tîm amlbroffesiynol a, lle y bo'n bosibl, dylid eu defnyddio fel cyfle i fyfrio a dysgu ar y cyd.

10.1.2 Ar gyfer unigolion, a drafodir mewn cyfarfodydd amlbroffesiynol, dylai'r tîm gytuno ar gydlynnydd penodol, i gefnogi gweithio'n ddi-dor ac atal dyblygu. Rhaid rhannu manylion y cydlynwyr gyda'r unigolyn, y gofawr ac aelodau ehangach y tîm amlbroffesiynol fel y bo'n briodol.

10.2 Cyfathrebu Proffesiynol a Chyfathrebu â'r Thîm:

10.2.1 Cynhelir cyfarfod Nyrsys Cymunedol ar lefel clwstwr **bob dau fis**, sy'n caniatáu i Nyrsys Practis Cyffredinol, Nyrsys Arbenigol a nyrsys o Ganghennau Nyrsio Arbenigol, Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol a grwpiau Nyrsio eraill Arwyddocaol:

- Gael cyfleoedd i rwydweithio, gan gynnwys nodi heriau a chyfleoedd
- Cefnogi trafodaeth am ymarfer e.e., drwy astudiaethau achos, a/neu newidiadau mewn ymarfer yn seiliedig ar ymchwil newydd, a/neu argymhellion ymarfer clinigol e.e., NICE
- Adnabod, cynnal ac adolygu gwelliannau i wasanaethau a/neu ymchwil
- Adolygu data yn deillio o brofiad a dulliau mesur canlyniadau
- Darparu cyfleoedd addysg anffurfiol/ffurfiol
- Adolygu llwybrau presennol a/neu ddatblygu llwybrau a ffyrdd newydd o weithio yng ngoleuni data poblogaeth leol a chanlyniadau
- Datblygu arweinyddiaeth gydweithredol gan gynnwys gwell dealltwriaeth o rolau a chyfraniad at anghenion y boblogaeth leol,
- Datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol,
- Rhannu gwersi o ganmoliaeth/cwynion a digwyddiadau

10.2.2 Bob chwe mis ar y mwyaf, dylai arweinwyr Clystyrau, cynrychiolwyr practisau meddygon teulu, Uwch Nyrsys ac aelodau o'r tîm iechyd a gofal ehangach fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd, datblygiadau neu arloesedd o gyfarfod y Nyrsys Cymunedol yn cael eu rhannu a'u gwerthuso.

10.2.3 Dylai nyrsys o'r Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol fod yn rhan o'r Gydweithfa Nyrsio Broffesiynol , neu wybod sut i godi unrhyw fater a ddymunant gyda'u Cydweithfa Nyrsio Broffesiynol leol.

Gall y Gydweithfa Nyrsio Broffesiynol fod yn rhan o gyfarfod dau fisol y nyrsys cymunedol neu gyfarfod ar wahân. Fodd bynnag, os yw'r gydweithfa broffesiynol yn rhan o'r cyfarfod deufisol, mae'n hanfodol bod cynrychiolaeth eang o'r aelodaeth nyrsio yn bresennol er mwyn bodloni amcanion gwaith craidd y gydweithfa.

10.2.4 Mae'n **hanfodol** bod Nyrsys Cymunedol yn cael eu cefnogi gan eu cyflogwyr a'u sefydliadau i rwydweithio gyda'i gilydd, gan fod hyn yn cynnig ffordd i Nyrsys Cymunedol arloesi, meithrin perthnasoedd gwaith ystyrlon ac adolygu ffyrdd presennol o weithio. Dylai sicrhau bod gan nyrsys yr amser i wneud hyn arwain at lai o ddyblygu, rhyddhau amser a gwella profiad a chanlyniadau unigolion.

10.2.5 Mae gan Nyrsys Cymunedol system ar waith lle y gallant ddod at ei gilydd bob dydd i:

- Ddarparu cefnogaeth i'ch gilydd
- Trafod pryderon a/neu newidiadau yng nghyflwr yr unigolyn
- Adolygu gwaith sy'n weddill a/neu atgyfeiriadau newydd
- Cael egwyl pryd bydd

11. Gweithgaredd dysgu a datblygu'r gweithlu

11.1 Mae gan wasanaethau nyrsio cymunedol gynllun gweithlu sy'n cynnwys sut y mae nyrsys:

- Yn cael eu recriwtio i'r gwasanaeth, gan gynnwys strategaethau recriwtio cadarnhaol wedi'u hanelu at grwpiau a allai fod wedi'u tangynrychioli o fewn y gweithlu nyrsio lleol.
- Yn cael eu datblygu yn unol ag anghenion y boblogaeth, gan gydnabod y sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu nyrsio, gan gynnwys datblygu rolau ymarfer clinigol uwch, cymwysterau ymarfer arbenigol (SPQ) a rolau meddygon ymgynghorol.

- Yn cael eu cadw drwy gynllun olyniaeth clir a chyfleoedd datblygu i nyrsys ar bob lefel o ymarfer, gan gynnwys mynediad i hyfforddiant nyrsys cofrestredig i weithwyr cymorth gofal iechyd ac i rolau nyrs glinigol neu broffesiynol arweiniol o fewn y clwstwr a/neu wasanaethau cymunedol.
- Yn cael eu galluogi i gael llwybr gyrfa strwythuredig wedi'i anelu at hyrwyddo gyrfa gydol oes o fewn y maes nyrsio cymunedol. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i nyrsys gynnal eu sgiliau clinigol mewn uwch rolau gweithredol/rheoli.
- Yn cael eu cefnogi i gael cynlluniau swyddi cytbwys a rhesymol sy'n creu ymdeimlad eu bod yn gwneud gwaith da ac ymdeimlad o gyflawniad.

11.2 Mae gan Wasanaethau Nyrsio Cymunedol ddealltwriaeth o'r rhesymau pam mae nyrsys yn gadael y proffesiwn, e.e., drwy ddefnyddio cyfweiliadau ymadael, a ddefnyddir i adolygu a llywio eu cynllun gweithlu

11.3 Cynigir Lleoliadau Nyrsio Cymunedol ar draws y Gwasanaethau Nyrsys Ardal, Nyrsys Practis Cyffredinol a Gwasanaethau Nyrsys Arbenigol. Mae hyn yn cefnogi myfyrwyr nyrsio i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'r mathau o waith nyrsio sydd ar gael mewn lleoliadau cymunedol ac yn cefnogi recriwtio yn y dyfodol.

11.4 Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn sicrhau bod digon o aseswyr a goruchwylwyr clinigol yn unol â [safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth](#) yn ogystal â Hwyluswyr Addysg Ymarfer i gefnogi:

- lleoliadau myfyrwyr nyrsio
- nyrsys newydd gymhwyso
- nyrsys yn dychwelyd i ymarfer
- nyrsys sy'n ymgymryd â chymwysterau ymarfer arbenigol
- nyrsys sy'n ymgymryd ag ymarfer clinigol uwch.
- nyrsys sy'n ymgymryd â Phresgripsiynu Anfeddygol

11.5 Mae gan wasanaethau nyrsio cymunedol fodel goruchwyllo clinigol ar waith sy'n darparu sesiwn strwythuredig a gwarchodedig o leiaf bob 8 wythnos. Yn ogystal â hynny, o leiaf bob 6 mis dylid cynnal sesiwn gyda nyrs sydd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol mewn goruchwyllo adferol. Gall hyn leihau straen a blinder, gwella llesiant a boddhad swydd yn ogystal â gwella perthnasoedd a dynameg tîm¹. Gellir cynnig Goruchwyllo Glinigol yn unigol, mewn grwpiau neu gymysgedd o'r ddau. Gall sesiynau goruchwyllo adferol ddigwydd ar adegau eraill o'r flwyddyn hefyd, er enghraifft yn dilyn newid rôl, ar adegau o straen² neu ar ôl digwyddiad tyngedfennol.

11.6 Mae bob Nyrs Gymunedol yn cael amser penodedig o 4 awr o leiaf ym mhob cyfnod 4 wythnos i ymgymryd â mentrau ansawdd. Gall hyn gynnwys archwiliadau clinigol, datblygu mentrau gwella gwasanaeth, ymchwili neu amser ar gyfer ysgrifennu erthyglau i'w cyhoeddi. Mae'r amser penodedig hwn yn hanfodol i gefnogi'r egwyddor o ofal diogel, effeithiol sy'n seiliedig ar werth.

11.7 Mae o leiaf 5% o oriau gwaith pob Nyrs Gymunedol yn ystod y flwyddyn wedi'i neilltuo fel amser datblygiad proffesiynol anorfodol. Mae hyn yn galluogi datblygiad parhaus i nyrsys sy'n hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel.

11.8 Mae pob Nyrs Gymunedol yn cael cyfle bob blwyddyn i drafod ei datblygiad proffesiynol gyda'i rheolwr llinell, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu bodloni gofynion y rôl a gofynion ailddilysu y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

¹ Petit, A. Stephen, R (2015) [ihv literature-review v9.pdf \(wordpress.com\)](#)

² [goruchwyllo-glinigol-i-fydwagedd-yng-nghymru.pdf \(llyw.cymru\)](#)

12. Modelau Gofal Nyrsio Cymunedol

12.1 Bydd gan Nyrsys Practis Cyffredinol, Nyrsys Ardal a'u timau a Nyrsys Arbenigol oherwydd natur eu rolau a chwmpas eu hymarfer sgiliau cyffredinol ac arbenigol. Mae'r ehangder hwn o sgiliau yn caniatáu cyfleoedd i ystyried gwahanol ffyrdd o weithio ar draws cymdogaethau, clystyrau a gofal sylfaenol/eilaidd ac fel rhan o'r tîm amlbroffesiynol ehangach **gan barhau i gydnabod gwerth pob un o'r grwpiau nyrsio hyn.**


12.2 Dylid galluogi a chefnogi Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol i ystyried ffyrdd amgen o gydweithio sy'n croesi ffiniau sefydliadol traddodiadol. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys:

- Rolau clwstwr fel nyrsys ymgynghorol a all gefnogi nyrsys cymunedol ac aelodau eraill o'r tîm amlbroffesiynol
- Swyddi a rennir fel rolau arweinydd tîm Nyrsys Ardal/Nyrsys Practis Cyffredinol
- Nyrsys Arbenigol sydd wedi'u lleoli mewn gofal eilaidd yn cael eu halinio â Gwasanaethau Nyrsio Gofal Sylfaenol a Chymunedol, gan alluogi a datblygu gwasanaethau ataliol lle mae hyn yn ychwanegu gwerth
- Nyrsys Iechyd Galwedigaethol yn gweithio ochr yn ochr a/neu wedi'u halinio â Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ar lefel practis neu glwstwr unigol
- Hybiau Nyrsio Cymunedol
- Gwasanaethau a Arweinir gan Nyrsys Cymunedol, e.e., Practisau Teulu a Arweinir gan Nyrsys, rowndiau Ward a Arweinir gan Nyrsys
- Swyddi Nyrsys Cylchdro rhwng Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol, gofal eilaidd a/neu Wasanaethau y Tu Allan i Oriau/111/WAST, gan hybu gwell dealltwriaeth o rolau, profiad a rheoli risg
- Nyrsys Arbenigol a gyflogir yn y Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol, a/neu fel rhan o'r tîm amlbroffesiynol ehangach yn hytrach na gofal eilaidd, gyda chynnig rhagweithiol i ofal eilaidd.
- Cydweithio â Gwirfoddolwyr neu fudiadau gwirfoddol gan adeiladu ar arfer da cyfredol er enghraifft, Clybiau Coesau, cynlluniau Gartref o'r Ysbyty a gwirfoddolwyr hyfforddedig sy'n cefnogi pobl ar ddiwedd eu hoes.
- Datblygu llwybrau newydd a/neu llwybrau a rennir rhwng Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol sy'n gweithredu dros amseroedd gwasanaeth estynedig e.e. gyda'r nos/ar benwythnosau ac mewn lleoliadau amgen, i ddiwallu anghenion grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Datblygu llwybrau a rennir rhwng Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ar draws ffiniau Byrddau Iechyd, gan sicrhau bod gofal a mynediad at Nyrsio Cymunedol yn cael eu safoni.

12.3 Lle mae cyfleoedd i ddatblygu modelau gweithio newydd yn bodoli, dangosir hyn gan fesurau sy'n cadarnhau'r manteision, y canlyniadau a'r profiad i unigolion, Nyrsys a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

13. Ansawdd a Chanlyniadau

Bydd angen i Wasanaethau Nyrsio Cymunedol allu dangos sut y maent yn cyflawni'r Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol a'i chanlyniadau. Mae hyn yn cynnwys sut y mae Nyrsio Cymunedol yn diwallu anghenion unigolion, sut y mae o fudd i nyrsys, o fudd i'r system ac yn galluogi ansawdd, diogelwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae'r canlyniadau a amlinellir isod yn darparu [dull sy'n seiliedig ar werth](#) o wella profiad a chanlyniadau pobl sydd ag anghenion nyrsio ac sy'n cefnogi uchelgeisiau'r [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol](#), o gael system ddysgu iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae cydweithio, perchnogaeth leol ac arloesi yn allweddol.



Ffigur 3 Mesurau ansawdd a chanlyniadau

Er mwyn dangos bod y Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol yn cael ei chyflawni, bydd angen cwblhau proses dwy ran, y dylid ei chwblhau ar sail 12 mis, neu ar ôl unrhyw drawsnewidiaid sylweddol o Wasanaethau Nyrsio Cymunedol a'i rhannu â Chyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol.

Mae'r broses ddwy ran yn cynnwys:

1. Cwblhau'r ffurflen hunanasesu sy'n ymdrin â phob agwedd allweddol (h.y., adrannau 4 – 12) y Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol
2. Adborth gan Nyrsys Cymunedol, Mesurau'n ymwneud â chanlyniadau a phrofiad a adroddir gan unigolion a data fel isod:

Profiad a Chanlyniadau a Adroddir gan Unigolion		
Beth rydym ni eisiau ei gyflawni?	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?	Canlyniadau
Mae unigolion yn gallu rhannu eu profiad o ofal o fewn Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol Mae unigolion yn gallu dylanwadu ar sut y mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn darparu gofal, triniaeth neu gymorth	Defnyddio cwestiynau craidd gyda defnyddwyr gwasanaethau i ddeall profiad unigolion o ofal Enghreifftiau o sut y mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol wedi gweithredu ar adborth e.e., 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni'	Unigolion sy'n defnyddio Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn cael profiad da

Llesiant a chydweithio		
Beth rydym ni eisiau ei gyflawni?	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?	Canlyniadau
Mynediad at oruchwyliaeth adferol i Nyrsys drwy amser penodedig Gwell dealltwriaeth o rôl, gwerth a chyfraniad y Nyrsys eu hunain Perchnogaeth o sut y darperir Nyrsio yn y gymdogaeth/clwstwr drwy ddefnyddio data sy'n llywio ac yn cefnogi ymarfer Datblygu sgiliau, llwybrau a ffyrdd o weithio a rennir a all fod yn wahanol i fodelau traddodiadol Llwybr gyrfa clir a chynllunio olyniaeth ar gyfer Nyrsys Digon o aseswyr a goruchwylwyr clinigol i gefnogi Nyrsys Cyfarfodydd trosglwyddo/sesiynau briffio dyddiol i Nyrsys	Adborth gan Nyrsys drwy brosiectau cydweithredol proffesiynol ac arolwg Cymryd rhan mewn Cydweithfeydd Proffesiynol a/neu gyfarfodydd Nyrsio Cymunedol Offeryn hunanasesu	Mae gan nyrsys fynediad at oruchwyliaeth adferol drwy amser wedi'i neilltuo Mae nyrsys yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y ffordd y cytunir ar newidiadau i wasanaethau ar lefel eu cymdogaeth/clwstwr Mae nyrsys yn deall y cyfleoedd gyrfa sy'n bodoli o fewn y maes ymarfer o'u dewis Cefnogir nyrsys yn ystod gweithgareddau datblygu proffesiynol gan oruchwylwyr/aseswyr sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol ac sydd wedi'u paratoi'n ddigonol Mae nyrsys yn cael cyfarfod dyddiol gyda'u tîm uniongyrchol/cydweithwyr, lle y gallant drafod gofal a thriniaeth pobl, unrhyw bryderon a chael cymorth.

Ansawdd a Diogelwch		
Beth rydym ni eisiau ei gyflawni?	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?	Canlyniadau
Mwy o amser i ddarparu gofal – % o'r amser a dreulir 'wyneb yn wyneb' (gwirioneddol neu rithwir) Y gallu i gael mynediad at systemau clinigol ar gyfer Nyrsys sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl Mynediad at SPQ a/neu hyfforddiant arall sydd ei angen i gyflawni'r rôl Y gallu i ymgymryd ag ymchwil a mentrau gwella ansawdd drwy amser wedi'i neilltuo Llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer pob Nyrs a maes ymarfer, wedi'u hategu gan farn broffesiynol Nyrsys Defnyddio datrysiadau digidol i gefnogi ymarfer gan gynnwys e-amserlennu Defnyddio cyfarfodydd amlbroffesiynol ac offer eiddilwch y cytunwyd arnynt	Adborth gan Nyrsys drwy brosiectau cydweithredol proffesiynol ac arolwg Data o systemau amserlennu lle maent ar gael Cyfraddau mynediad i raglenni ymarfer clinigol uwch gan gynnwys Cymwysterau Ymarferydd Arbenigol Nifer y gwasanaethau lle y mae offer eiddilwch ar gael ar eu cyfer Offeryn hunanasesu	Nyrsys yn dweud bod ganddynt amser i ddarparu gofal cyfannol Gall Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ddangos faint o amser y mae Nyrsys yn ei dreulio gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt Mae gan nyrsys fynediad at systemau clinigol a dulliau digidol Mae nyrsys yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt ar gyfer eu rôl Mae nyrsys yn gallu datblygu, cefnogi neu arwain ymchwil a mentrau gwella gwasanaethau Mae nyrsys yn defnyddio dull safonol o nodi eiddilwch

Manteision i'r System

Beth rydym ni eisiau ei gyflawni?	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?	Canlyniadau
Darpariaeth gyson a lleihad mewn amrywiadau: mynediad i wasanaethau o fewn a thu allan i oriau, llwybrau gofal e.e., gofal cathetr Cynaliadwyedd gwasanaethau Nyrsio Ardal craidd 24/7 – mae nifer y staff ar benwythnosau yn isafswm o 80% o'r staff arferol sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cadw nyrsys profiadol Denu nyrsys cymunedol – y rhai sy'n newydd i ymarfer, sy'n newid eu maes ymarfer, nyrsys rhyngwladol a'r rhai sy'n dychwelyd i ymarfer	% y bobl â chathetr yn yr wrethra neu uwchlaw'r arffed sy'n mynychu Adran Achosion Brys Offeryn hunanasesu Gwybodaeth am gadw'r gweithlu, recriwtio a swyddi gwag	Mae pobl sydd â chathetr yn yr wrethra neu uwchlaw'r arffed yn gallu cael mynediad at wasanaethau Nyrsio Ardal neu ddarpariaeth nyrsio gymunedol amgen 24/7 Mae pobl ag anghenion nyrsio yn gallu cael mynediad i Wasanaethau Nyrsio Ardal 24/7, Mae nyrsys yn dewis gweithio ac aros mewn gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol

Gweithgarwch a Galw

Beth rydym ni eisiau ei gyflawni?	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?	Canlyniadau
Llai o ymweliadau/derbyniadau i'r ysbyty Arhosiad llai yn yr ysbyty Y gallu i ryddhau cleifion yn gyson 7 diwrnod yr wythnos Y gallu i gyflawni amseroedd ymateb; Achosion Brys 2 awr; Achosion Di-frys o fewn 72 awr; Gofal wedi'i gynllunio o fewn 10 diwrnod	Defnyddio Mesur Diwrnodau lach yn y Cartref i nodi ardaloedd o bresenoldeb uchel yn yr Adran Achosion Brys/Ysbyty Codau a ddefnyddir sy'n ymwneud ag oedi oherwydd Nyrsio o fewn y maes Oedi gyda Llwybrau Gofal Data o systemau amserlennu lle maent ar gael	Nid yw unigolion yn mynychu Adrannau Achosion Brys neu'r ysbyty yn ddiangen Nid yw rhyddhau unigolion ag anghenion nyrsio yn cael ei ohirio oherwydd diffyg Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol. Mae Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol yn gallu derbyn pobl sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai 7 diwrnod yr wythnos Mae unigolion ag angen nyrsio yn cael eu gweld yn unol ag amseroedd ymateb y cytunwyd arnynt

14. Rhestr Termau

- **Cydweithio ac ymgysylltu gweithredol** - gall gynnwys:
 - Meithrin dealltwriaeth a pherthnasoedd ar sail ardal.
 - Gweithio gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol i gydgyhyrchu atebion i anghenion a nodwyd neu fylchau yn y ddarpariaeth gofal.
 - Cynnwys gwirfoddolwyr. e.e., drwy gyrff gwirfoddol neu statudol, (WCVA, 2022)
- **Clwstwr:** *"Mae clwstwr yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal ynghyd ar draws ardal ddaearyddol, ardaloedd sy'n gwasanaethu poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer".* ([Pecyn Cymorth DCC](#))
- **Cymdogaeth:** ardal ddaearyddol ddiffiniedig o fewn cymuned fwy
- **Di-frys** - mae'r unigolyn yn gallu aros am ymyriad nyrsio am hyd at 72 awr (gan gynnwys ar benwythnosau a gwyliau banc)
- **Gofal wedi'i Gynllunio** – mae'r unigolyn yn gallu aros am ymyriad nyrsio am hyd at ddeg diwrnod gwaith
- **Cydweithfeydd Nyrsio Proffesiynol** - rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol sy'n rhannu arbenigedd, sy'n cydweithio i ddefnyddio eu sgiliau unigryw i asesu anghenion y boblogaeth yn yr ardaloedd lle maent yn gweithio.
- **Proses Nyrsio QNI:** Y broses a ddefnyddir gan nyrsys cofrestredig i asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal. Er y gall llawer o aelodau'r tîm gyflawni hyn, mae'r Nyrs Gofrestredig yn parhau i fod yn gyfrifol am y broses nyrsio ([QNI 2022](#))
- **Gofal a Alluogir gan Dechnoleg (TEC)** - [Gwasanaethau Gofal a Alluogir gan Dechnoleg \(TECS\)](#) - mae'n cynnig ffordd o wneud mwy gyda llai, gofal yn nes at y cartref ac yn darparu [buddion](#) i bobl ac i'r gweithlu. Mae enghreifftiau o brosiectau TEC yng Nghymru i'w gweld yma; [TEC Cymru | Iechyd Digidol Cymru](#)
- **Brys** - angen nyrsio brys sy'n debygol o arwain at fynd i'r ysbyty neu dderbyn claf i'r ysbyty os na chaiff y person ei weld o fewn 2 awr
- [Gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth](#) - canolbwyntio ar gyrraedd nodau'r bobl a welir a helpu i reoli disgwyliadau drwy gydol eu gofal neu driniaeth. Mae'n cynnwys gwella'r modd y mae pobl yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau, osgoi unrhyw amrywiadau diangen mewn gofal a bod yn fwy creadigol i benderfynu ble mae adnoddau'n cael eu gwario orau i wella canlyniadau person.
- **Gwaith ar ôl heb ei wneud:** Y gwaith nad oes gan nyrsys a gweithwyr cymorth amser nac adnoddau i'w wneud, ond sy'n effeithio ar ofal uniongyrchol i gleifion neu ar drefnu gofal (er enghraifft gwneud atgyfeiriadau) ([QNI 2022](#))

Atodiadau

Atodiad 1: Ffurflen hunan-asesu sy'n cwmpasu pob agwedd allweddol (h.y. adrannau 4 – 12) o'r Fanyleb Nyrsio Cymunedol Genedlaethol.



Atodiad 1 Ffurflen
Hunan-Asesu (Saesr